------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2020

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09.00 - 09.30)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 35)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-26-20 Papur 1 - Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Shan Morgan - Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

Peter Kennedy - Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

Natalie Pearson - Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru

David Richards - Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg, Llywodraeth Cymru

## 3 Papur(au) i'w nodi

(11.00 - 11.15)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3a Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant (12 Tachwedd 2020)**

PAC(5)-26-20 PTN1 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant (12 Tachwedd 2020)

**3b Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (16 Tachwedd 2020)**

(Tudalen 36)

**3c Lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Paratoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit (16 Tachwedd 2020)**

(Tudalennau 37 - 50)

**3d Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cod Ymarfer Archwilio (30 Hydref 2020)**

(Tudalennau 51 - 52)

PAC(5)-26-20 PTN4 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cod Ymarfer Archwilio (30 Hydref 2020)

PAC(5)-26-20 PTN4A - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (18 Tachwedd 2020)

**3e Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau (24 Tachwedd 2020)**

PAC(5)-26-20 PTN5 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau (24 Tachwedd 2020)

**3f Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Offeryn Data Cyllid GIG Cymru (27 Tachwedd 2020)**

PAC(5)-26-20 PTN5 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Offeryn Data Cyllid GIG Cymru (27 Tachwedd 2020)

**3g Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: CGohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (Tachwedd 2020)**

(Tudalennau 53 - 92)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11.15)

Eitem 5 ac Eitem 1 y cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.15 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Tachwedd 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Rheoli Meddyginiaethau**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 28 Awst, rwyf yn falch o allu cadarnhau bod Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) diwygiedig 055 Storio Meddyginiaethau'n Ddiogel: Cypyrddau, sy'n rhoi cyngor ar amgylcheddau priodol ar gyfer storio a pharatoi meddyginiaethau ac sy'n disodli PSN 030, bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Uned Gyflawni GIG Cymru.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

cc: Y Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru
Blwch negeseuon e-bost CGU
Blwch negeseuon e-bost y Cabinet

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Allanol
a Deddfwriaeth Ychwanegol
Y Senedd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/224/caf
**Dyddiad Cyhoeddi:** 17 Tachwedd 2020

Annwyl David

## Paratoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit

Cyhoeddais fy Adroddiad ar 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'' ym mis Chwefror 2019. Roedd yr adroddiad hwnnw yn crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio ar draws cyrff cyhoeddus Cymru i asesu eu parodrwydd. Ysgrifennais atoch wedi hynny ym mis Medi 2019 yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran paratoadau ar gyfer Brexit heb gytundeb. Roedd y llythyr hwnnw'n nodi rhai o'r heriau allweddol i'r gwasanaethau cyhoeddus oedd, ar y pryd, yn wynebu'r posibilrwydd y byddai'r DU yn gadael yr UE heb Gytundeb Ymadael ar 31 Hydref 2019.

Ers hynny, mae llawer wedi newid er bod llawer o'r heriau a'r materion yn dal yn gyfarwydd. Fel y gwyddom, cytunodd yr UE a'r DU i ymestyn dyddiad cau'r 31 Hydref 2019. Yn dilyn yr etholiad cyffredinol, cadarnhaodd y DU a'r UE Gytundeb Ymadael diwygiedig ac ar 31 Ionawr 2020 gadawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd. Aeth y DU i mewn i 'gyfnod pontio' o un mis ar ddeg, y darparwyd ar ei gyfer yn y Cytundeb Ymadael. Ar yr un pryd, cychwynnodd trafodaethau ynghylch perthynas newydd â'r UE, gyda'r bwriad y byddai cytundeb newydd yn ei le erbyn diwedd y cyfnod pontio.

Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, mae'r posibilrwydd yn dal i fod y bydd y DU yn gadael y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr heb gytundeb ynglŷn â'r berthynas yn y dyfodol. Roedd Prif Weinidog y DU wedi pennu 15 Hydref fel dyddiad cau, ond mae'r dyddiad hwnnw wedi mynd heibio. Mae trafodaethau'n parhau er bod gwahaniaethau yn dal i fod rhwng yr UE a'r DU mewn rhai meysydd allweddol.

Hyd yn oed gyda chytundeb, fe fyddai yna ganlyniadau i wasanaethau cyhoeddus Cymru ac economi a chymdeithas ehangach Cymru. Ers imi adrodd ddiwethaf, mae uchelgais Llywodraeth y DU ar gyfer y berthynas yn y dyfodol wedi newid yn sylweddol. Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gytundeb masnach rydd, tebyg i'r hyn sydd gan yr UE gyda Chanada. Os cytunir arno, mae'n debyg y bydd hyn yn golygu dileu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o dariffau'r tollau rhwng y DU a'r UE. Ond bydd rhwystrau newydd heb dariff hefyd, gan gynnwys gwiriadau newydd ar nwyddau sy'n dod i mewn ac allan o'r wlad. Yn ogystal â hynny, bydd cyfundrefn ymfudo newydd, fydd yn effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE i weithio yn y DU ac i'r gwrthwyneb.

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru bellach yn wynebu'r her o'u paratoi eu hunain a'r gymdeithas ehangach ar gyfer y newidiadau hyn tra'n ymdrin hefyd ag effaith pandemig COVID-19. Mewn rhai ffyrdd, mae'r gwaith blaenorol i baratoi ar gyfer Brexit wedi bod o gymorth gyda'r ymateb i COVID-19. Pan ysgrifennais atoch ym mis Medi 2019, dywedais:

> "Cynllunio ar gyfer Brexit yw'r esiampl fwyaf cynhwysfawr o weithio ar draws llywodraeth yr ydym wedi gweld Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef hyd yma. Mae'n ddiamau y bydd yna wersi gwerthfawr i Lywodraeth Cymru eu tynnu o'r profiad hwn a sut y gallai efallai addasu ei dull ar gyfer ymdrin â heriau cyflawni gwasanaethau cyhoeddus trawstoriadol eraill."

Dywedodd y rhai y buom yn siarad â hwy wrth baratoi'r diweddariad hwn fod y strwythurau, y cynllunio a'r cydberthnasau a ddatblygwyd i baratoi ar gyfer Brexit i gyd wedi helpu fel rhan o'r ymateb i'r pandemig. Roedd yna fanteision ymarferol penodol hefyd, er enghraifft, mae GIG Cymru'n adrodd ei fod wedi defnyddio rhai o stoc glustogi Brexit fel rhan o'r ymateb i COVID-19. Mewn llawer o ffyrdd, mae'r gwaith i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ac i ymateb i COVID-19 yn cael ei integreiddio a'i gydlynu â'i gilydd.

Er gwaethaf y pwysau ychwanegol, mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi parhau i gadw trefniadau yn eu lle i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei strwythurau, gyda Bwrdd Sicrwydd newydd. Mae trefniadau'r gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd wedi aros yn eu lle. Dywedodd cyrff arweiniol ar gyfer prif sectorau gwasanaeth cyhoeddus Cymru wrthym fod gweithgarwch, ers mis Hydref, unwaith eto wedi cynyddu ymdrechion cyffredinol yn ogystal ag o fewn cyrff unigol.

Pan ysgrifennais ym mis Medi 2019, nodais bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch ymgysylltu â Llywodraeth y DU. Dywed Llywodraeth Cymru fod y berthynas wedi dirywio yn hanner cyntaf 2020 ond ei bod wedi gwella'n ddiweddar, gyda mwy o rannu gwybodaeth ac ymgysylltu. Er enghraifft, y llynedd, roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio yn unol â chynllun cyffredin ar gyfer digwyddiadau sifil annisgwyl, sef Ymgyrch Yellowhammer. Ar yr adeg y gwnaethom ein gwaith maes, nid oedd cynllun cyffredin o'r fath yn bod. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym, ar ôl cyfnod o gael mynediad cyfyngedig, ei bod bellach wedi gweld mwy ar ddogfennau cynllunio sefyllfaoedd Llywodraeth y DU a bod cydweithredu'n cryfhau.

Mae gan Lywodraeth Cymru ei chynllun ei hun yn ei le sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd. Cyhoeddodd ei Chynllun Gweithredu Diwedd Pontio ar 11 Tachwedd. Yr anhawster yw sicrhau bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud o fewn yr amserlen, ynghyd â darparu'r adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol tra'n ymateb hefyd i bandemig, sydd wedi bod yn mynnu sylw pob rhan o'r llywodraeth ers mis Mawrth. Mae llawer o'r rhai oedd yn ymwneud o'r blaen â gwaith paratoi ar gyfer Brexit wedi cymryd rhan fawr yn yr ymateb i COVID-19, a heb gael llawer o gyfle i adnewyddu dros yr haf. Rwyf hefyd yn sylwi y gallai diwedd y cyfnod pontio gyd-ddigwydd â'r cyfnod brig o farwolaethau yng Nghymru yn yr ail don, yn ôl y modelu a ddefnyddiwyd gan Gell Gynghori Dechnegol COVID-19 Llywodraeth Cymru.

Mae symud i berthynas newydd â'r UE yn fater hollbwysig er lles dinasyddion a chymunedau Cymru. Er gwaethaf y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu rhoi adnoddau sylweddol yn eu lle i ddarparu digon o gapasiti i gyflawni'r camau angenrheidiol ac i gryfhau gwytnwch gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor byr a'r tymor hir.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn a'r manylion cysylltiedig yn gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y materion sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Yn gywir,



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Atodiad 1

# Paratoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit

## Ynghylch y gwaith a gyflawnwyd gennym

Rydym wedi cynnal adolygiad lefel uchel iawn yn ystod mis Medi a mis Hydref i gasglu gwybodaeth ar gyfer y diweddariad hwn. Buom yn cyfweld uwch swyddogion Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am gynllunio Brexit, yn ogystal â swyddogion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chydffederasiwn GIG Cymru. Buom hefyd yn cyfweld swyddogion o Hybu Cig Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, dau o’r cyrff a ariennir yn gyhoeddus y gallai Brexit effeithio fwyaf arnynt o bosibl.

Rydym wedi adolygu dogfennau a gedwir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ei chynllun gweithredu trosfwaol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn, a dogfennau cynllunio manwl eraill. Nid ydym wedi gwneud unrhyw waith i roi prawf ar y cynlluniau a adolygwyd ac felly nid ydym wedi ceisio ffurfio barn ar ba mor effeithiol y maent yn debygol o fod. Er hynny, mae’r cynllun a gyhoeddwyd yn amlwg yn ymdrin â’r prif feysydd risg ac yn adlewyrchu’r cynlluniau mwy manwl a’r gweithgarwch sylfaenol.

## Y meysydd risg allweddol sy’n codi o ddiwedd y cyfnod pontio


Datblygodd Llywodraeth Cymru Gynllun Diwedd y Cyfnod Pontio newydd. Rydym wedi defnyddio’r materion a eglurir yn y cynllun i nodi’r meysydd risg allweddol (**Ffigur 1**). Mae rhai o’r rhain yn cwmpasu meysydd nad ydynt wedi’u datganoli neu lle mae gweithredu gan wasanaethau cyhoeddus Cymru yn gysylltiedig â gweithgareddau ledled y DU. Yn rhai achosion, mae’r materion yn debyg, p’un a oes cytundeb ai peidio, yn enwedig yr angen am wiriadau yn y porthladdoedd a pherthynas fasnachu newydd ar gyfer busnesau. Mewn achosion eraill, mae’r materion yn benodol i’r sefyllfa lle na fydd y DU a’r UE yn gallu dod i gytundeb.

Wrth grynhoi’r materion hyn, rydym yn canolbwyntio isod yn bennaf ar y meysydd hynny y mae asesiad Llywodraeth Cymru yn dangos sy’n peri’r pryder mwyaf. At hynny, mae materion penodol yn y cynllun, megis digonolrwydd data[1], sydd hefyd yn peri pryder sylweddol ond nad ydynt yn cael eu gweld fel y risg uchaf. Mae materion eraill yn cynnwys parodrwydd gweithrediadol ar draws yr amgylchedd a materion gwledig, lle mae yna oddeutu 70 o brosiectau, gan gynnwys mewn meysydd megis rheoli sylweddau sy’n lleihau’r oson, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a phlaleiddiaid a gorfodi pysgodfeydd.

---

[1] Mae’r UE eto i benderfynu a oes gan y DU lefel ‘ddigonol’ o ddiogelu data. Os caiff ei hystyried yn ‘ddigonol’, gellir anfon data o Ardal Economaidd Ewrop i’r DU heb fod angen camau diogelu pellach.

**Ffigur 1: Materion allweddol yr ymdrinnir â hwy yng Nghynllun Diwedd y Cyfnod Pontio Llywodraeth Cymru**



**Gweithgareddau gweithrediadol:** Mae'r materion yn ymwneud yn bennaf â'r paratoadau ar gyfer y seilwaith, rheoli traffig a materion darparu gwasanaethau ynghylch gwiriadau hylendid newydd a gwiriadau rheoli ffiniau ym mhorthladdoedd Cymru.



**Parodrwydd a chefnogaeth busnes:** Mae'r materion yn ymwneud yn bennaf ag ymdrechion cyffredinol i baratoi busnesau ar gyfer newid yn natur y berthynas fasnachu â'r UE, gyda phryderon penodol ynglŷn â'r sector cig coch a physgodfeydd os digwydd na fydd cytundeb â'r UE.



**Cyflenwi nwyddau critigol:** Mae'r materion yn ymwneud yn bennaf ag amharu ar gadwyni cyflenwi ar gyfer nwyddau critigol y mae ar y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill eu hangen, gyda Llywodraeth Cymru yn pryderu'n benodol ynglŷn ag effeithiolrwydd mecanweithiau ledled y DU i reoli'r risgiau hyn.



**Strategaeth a gallu Llywodraeth Cymru:** Mae'r materion yn ymwneud â'r diffyg eglurder ynghylch yr hyn a fydd yn cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE o 2021 ymlaen a phryderon ynghylch capasiti'r staff i gyflawni oddeutu 4,000 o swyddogaethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd drosodd o ganlyniad i adael yr UE.



**Cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus:** Mae'r materion yn ymwneud yn bennaf â chynorthwyo dinasyddion yr UE a phryderon yn ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr yr UE yn y sectorau iechyd a gofal.

**Fel rhan o'i hasesiad, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mwy na £50 miliwn o weithgaredd sydd i gael ei gyflawni, nad yw wedi ei ariannu eto. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol gan gynnwys arian ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgaredd hwn**.

## Gweithgareddau gweithrediadol

**Porthladdoedd:** p'un a oes 'cytundeb' ai peidio, bydd angen cynnal archwiliadau newydd ar nwyddau ym mhorthladdoedd y DU, gan gynnwys y rhai yng Nghymru. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau ar gynnyrch seiliedig ar anifeiliaid a phlanhigion yng Nghymru[2]. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) fydd yn gyfrifol am wiriadau tollau ar y ffin. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno'r gwiriadau ar y ffin yn raddol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2021. Mae'r dull cyflwyno graddol wedi ei egluro ym Model Gweithredu ar y Ffiniau Llywodraeth y DU, a gyhoeddodd ym mis Hydref 2020.

Er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o adeiladu dau safle mewndirol newydd; un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne-orllewin Cymru. Ar y safle yng Ngogledd Cymru, a arweinir gan HMRC, bydd gweithrediadau ar y cyd yn cael eu cynnal gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai dim ond yn ddiweddar y cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fydd y safle yn Ne-orllewin Cymru yn rhedeg gweithrediadau ar y cyd. Felly, bydd angen i Lywodraeth Cymru benodi ei chontractwyr ei hun.

Mae cyflawni'r safleoedd newydd hyn mewn pryd yn edrych yn heriol. Nodwyd yr angen am safle yn Ne-orllewin Cymru yn ddiweddarach na'r angen yng Ngogledd Cymru, ac yn y camau cynnar iawn y mae'r cynllunio. Cafodd cynnydd yng Ngogledd Cymru ei ddal yn ôl am amryw o resymau, gan gynnwys y ffaith nad oedd y safleoedd a ddynodwyd yn wreiddiol yn ddichonadwy.

Mae costau'r seilwaith newydd yn ansicr gan ei bod yn dal yn aneglur sut bydd dyluniad, adeiladwaith, gweithrediad a lefel staffio'r safleoedd yn edrych. Mae LIC yn disgwyl y bydd y gwiriadau ar y ffin a'r archwiliadau hylendid, unwaith y byddant yn eu lle, yn dod yn hunangyllidol i raddau helaeth, fel gwasanaethau y codir tâl amdanynt.

Mae heriau posibl o ran dod o hyd i ddigon o bobl i redeg y systemau a chynnal y gwiriadau. Yn benodol, mae galw mawr ar hyn o bryd am y staff iechyd amgylcheddol, y bydd eu hangen ar gyfer archwiliadau hylendid, i gefnogi'r ymateb i bandemig COVID-19, gan gynnwys cefnogi Profi, Olrhain a Diogelu a gorfodi rheoliadau COVID-19, er enghraifft yn y sector lletygarwch. At hynny bydd angen i filfeddygon swyddogol a thechnegwyr, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, gynnal rhai archwiliadau wrth y ffiniau.

---

[2] Yn dechnegol, gwiriadau 'iechydol' yw'r rhain sy'n diogelu iechyd dynol ac iechyd anifeiliaid a gwiriadau 'phytoiechydol' sy'n diogelu iechyd planhigion.

**Porthladdoedd – rheoli trafnidiaeth:** mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r risg o darfu sylweddol ar draffig yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i dagfeydd yng Nghaergybi. Ar adeg ein gwaith maes, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl am 'ddadansoddiad llif' wedi'i ddiweddaru gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU a Grŵp Cyflawni'r Ffin a Phrotocolau. Cawsom ar ddeall ei bod bellach wedi derbyn y dadansoddiad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y gallai costau rheoli mwy o draffig fod yn unrhyw beth rhwng £300,000 a £5 miliwn dros gyfnod o chwe mis. Nid yw Llywodraeth Cymru'n disgwyl oedi mawr na phroblemau rheoli traffig o gwmpas y porthladdoedd yn Ne-orllewin Cymru.

**Parodrwydd a Chefnogaeth Busnes**

**Cig coch:** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y sector cig coch yn fwy agored i niwed o ganlyniad i COVID-19, a'r sector defaid yn neilltuol, o ystyried ei ddibyniaeth uchel ar allforion[3]. Os na fydd cytundeb masnachu a'r sector yn wynebu tariffau uchel, mae colli'r farchnad allforio, pan fydd y sector gwasanaethau bwyd heb ddychwelyd i'w lawn gapasiti (oherwydd COVID-19), yn debygol o gael effaith ariannol ddifrifol ar fusnesau ffermio. Gallai hyn gael canlyniadau dilynol i les unigolion a lles anifeiliaid. Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau drafft ar gyfer pecyn cymorth i'r sector ond mae'n galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod arian ar gael i'w ddarparu.

**Pysgodfeydd:** Yn ystod misoedd y gaeaf, mae lefelau allforio'n tueddu i gynyddu a disgwylir i'r diwydiant fod yn agored i niwed drwy sefyllfa o ddim cytundeb. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am gymorth ariannol i'r diwydiant ac mae'n ceisio argyhoeddi Llywodraeth y DU i ddatblygu pecyn cymorth ledled y DU ar gyfer y sector.

**Parodrwydd Busnes:** Bydd llawer o fusnesau Cymru'n wynebu rheolau ac archwiliadau newydd wrth fasnachu gyda'r UE, p'un a fydd yna gytundeb ai peidio. Mae Porth Pontio'r UE[4] a Busnes Cymru yn ganolog i gymorth busnes. Dywed Llywodraeth Cymru fod y cyfnod estynedig o ansicrwydd yn achosi mwy o bwysau ymhlith busnesau a diffyg capasiti i baratoi o ystyried effeithiau COVID-19.

Mae'n cydnabod felly y bydd angen iddi ailflaenoriaethu ac atal gwaith arall sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Fusnes Cymru. Mae gwaith Llywodraeth Cymru i baratoi a chefnogi busnesau yn cael ei gysylltu fwyfwy â'r gwaith ehangach o reoli effeithiau economaidd pandemig COVID-19. Enghraifft o hyn yw cam diweddaraf ei Chronfa Cydnerthedd Economaidd, a gyflwynwyd i ddechrau i helpu busnesau drwy bandemig COVID-19. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi addasu'r cylch ariannu

[3] Yn 2019, roedd y farchnad allforio ar gyfer defaid a chig eidion yn werth £198.5 miliwn i Gymru; allforiwyd dros 90% i'r Undeb Ewropeaidd.

[4] Tudalen o fewn tudalennau gwe Busnes Cymru, sy'n gweithredu fel tudalen lanio i fusnesau gael gafael ar wybodaeth pontio'r UE, er mwyn iddynt 'barhau'n wybodus a pharhau i fod yn barod'.

diweddaraf i sicrhau bod £100 miliwn ar gael i gefnogi busnesau drwy'r pandemig a diwedd cyfnod pontio'r UE hefyd.

**Cyflenwi nwyddau critigol**

Mae pryderon cyffredinol ynghylch tarfu sylweddol yn y porthladdoedd yn ne Lloegr fydd yn effeithio ar gadwyni cyflenwi nwyddau critigol[5]. O’r blaen, roedd y DU a’r UE wedi nodi rhai trefniadau dros dro i liniaru rywfaint ar yr oedi posibl.
Er mai’n raddol y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno rhai archwiliadau ar nwyddau sy’n dod i mewn i’r DU, deallwn fod yr UE ar hyn o bryd yn bwriadu defnyddio’r ystod lawn o archwiliadau ar nwyddau’r DU fydd yn mynd i mewn i’r UE.

Mae materion y cadwyni cyflenwi yn effeithio ar amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a dysgwyd drwy brofiad y cadwyni cyflenwi yn ystod pandemig COVID-19. Fel oedd yn wir gyda’r trefniadau blaenorol ar gyfer Brexit heb gytundeb, mae GIG Cymru (gan gynnwys Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru) yn gweithio gyda chydweithwyr o bob cwr o’r DU i sicrhau bod meddyginiaethau a dyfeisiadau meddygol yn dal i gael eu cyflenwi. Mae GIG Cymru ar wahân yn adeiladu stoc glustogi o gyflenwadau meddygol a chyffuriau lle bo angen.

Mae materion eraill cysylltiedig â’r cadwyni cyflenwi yn cynnwys meddyginiaethau milfeddygol a rhai cemegau. Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu i gynllun wrth gefn ledled y DU i reoli’r risgiau hyn ynghylch argaeledd cemegau y mae eu hangen i drin dŵr yfed. Fel rhan o’r dull hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a’r diwydiant cemegau.

Ar nodyn cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y profiad a enillwyd drwy bandemig COVID-19 wedi dangos bod cynllunio wrth gefn y cadwyni cyflenwi bwyd yn gadarn. Mae o’r farn fod y cysylltiadau gweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, DEFRA, gweinyddiaethau datganoledig eraill, a busnesau wedi gweithio’n dda i raddau helaeth yn hyn o beth. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn dal yn bryderus ynglŷn ag effaith bosibl lleihad yn y dewis a’r cynnydd mewn costau, yn enwedig ar y cartrefi mwyaf agored i niwed. Mae hefyd yn dal yn bryderus ynghylch yr ymateb cyhoeddus posibl i brinder rhai cynhyrchion bwyd ac yn adrodd ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r prif archfarchnadoedd ar gyfathrebu â defnyddwyr.

---

[5] Ar 6 Tachwedd 2020, adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei bod yn debygol y bydd tarfu sylweddol wrth ffin y DU a bod materion gweithredol o hyd i'w datrys i leihau'r risgiau o darfu o gwmpas croesfannau byr y Sianel. Dywedodd hefyd fod COVID-19 yn gwneud cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwi nwyddau a meddyginiaethau critigol yn fwy anodd eu gweithredu.

**Adnoddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru**

**Cyllid Rhanbarthol Presennol ac yn y Dyfodol:** dywed Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) fod y cylch ariannu presennol yn mynd rhagddo'n dda. Mae wedi rhwymo holl gyllid Strwythurol yr UE, sydd ar gael, i brosiectau, gydag Ymadael, bydd yr UE yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau o dan y cylch ariannu presennol hyd yn oed ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Os digwydd i'r berthynas rhwng yr UE a'r DU dorri i lawr, ac i bartïon beidio â chadw telerau'r Cytundeb Ymadael, mae WEFO o'r farn y byddai gwarant Trysorlys EM i roi arian yn lle cyllid yr UE yn ei diogelu[6].

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, fydd yn cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE. Cynhyrchodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig hefyd adroddiad beirniadol yn tynnu sylw at y diffyg cynnydd[7]. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith drafft ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol. Mae'n cynllunio i roi rhaglen olynol ar waith o fis Ebrill 2021 ac mae ganddi rai prosiectau ar y gweill. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn dibynnu ar dderbyn cadarnhad o gyllid ac mae'n parhau i fod yn ansicr a fydd gan Lywodraeth Cymru yr ymreolaeth i bennu ei blaenoriaethau ei hun.

**Swyddogaethau Cyflawni:** o ganlyniad i beidio â bod yn rhan o'r UE mwyach, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ymgymryd â chyfrifoldeb am oddeutu 4,000 o swyddogaethau cyfreithiol oedd yn cael eu harfer o'r blaen ar lefel yr UE. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau ymarferiad ar hyn o bryd er mwyn deall goblygiadau'r swyddogaethau hyn yn well a gweld beth yw'r dewisiadau ar gyfer eu cyflawni. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweld ymgymryd â chymaint o gyfrifoldebau yn risg sylweddol oherwydd cyfyngiadau staffio (gweler isod). At hynny, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa adnoddau y mae arni eu hangen i ymateb i'r dewisiadau polisi fydd ar gael pan na fydd bellach yn ddarostyngedig i reolau a fframweithiau'r UE.

[6] Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae Brexit yn effeithio ar gronfeydd strwythurol a gwarant Trysorlys EM yn ein hadroddiad ym mis Awst 2018 ar **Rheoli Effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE**.

[7] Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, **Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin: Blaenoriaethau ar gyfer disodli cyllid strwythurol yr UE**, Hydref 2020

**Deddfwriaeth:** Bydd angen i Lywodraeth Cymru basio cyfreithiau newydd wrth iddi ymgymryd â phwerau newydd a llenwi bylchau mewn deddfwriaeth oedd yn cael eu llenwi o'r blaen gan gyfraith yr UE. Roedd Llywodraeth Cymru wedi pasio 51 o gyfreithiau (offerynnau statudol) cyn i'r DU adael yr UE yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020. Ers hynny, fel ar 6 Tachwedd 2020, roedd wedi gosod wyth allan o 21 offeryn statudol newydd yn y Senedd. O'r 13 oedd yn weddill, roedd pump wedi'u drafftio a'u cyfieithu, roedd pedwar wrthi'n cael eu cyfieithu ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau neu wedi rhagweld dyddiadau i bob un gael ei osod. Bydd rhai cyfreithiau llai pwysig yn cael eu gosod yn 2021. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi caniatâd i 214 o offerynnau statudol y DU mewn meysydd datganoledig ac roedd yn disgwyl gorfod rhoi caniatâd i naw arall erbyn 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n pryderu am y gallu i ymateb yn effeithiol i ddeddfwriaeth y DU, fydd yn gweithredu unrhyw gytundeb newydd rhwng y DU a'r UE, os bydd un yn ei le, fydd yn gofyn am graffu ac ystyried cydsyniad gan y deddfwrfeydd datganoledig. Mae'n pwyso ar Lywodraeth y DU am gael gweld deddfwriaeth ddrafft yn gynnar.

### Cymunedau a Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y materion dan y pennawd hwn, sy'n cynnwys cyngor i ddinasyddion yr UE, yn enwedig ynglŷn â statws sefydlog, a materion yn ymwneud â thrafnidiaeth ryngwladol, ond ar Lywodraeth y DU y mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd am gyflawni'n gyffredinol. Dywedodd CLlLC a Chydffederasiwn GIG Cymru wrthym fod mater mewnfudo a chadw a recriwtio dinasyddion yr UE yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder mawr iddynt. Dywedodd Cydffederasiwn y GIG wrthym ei fod wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y DU i geisio dylanwadu ar ffordd Llywodraeth y DU o feddwl am ei chynlluniau mewnfudo yn y dyfodol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i sut y gallai cynigion mewnfudo yn y dyfodol, o dan system sy'n seiliedig ar bwyntiau, effeithio ar sector iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

## Adnoddau i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

### Adnoddau Staffio

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr adnodd staffio sydd ar gael i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Mae llawer o’r swyddogion oedd yn gweithio yn Nhîm Pontio’r UE a llawer o’r swyddogion oedd yn gweithio ar feysydd polisi penodol wedi cael eu hadleoli neu wedi cael rolau yn yr ymateb i COVID-19. Mae staff uwch o bob rhan o Lywodraeth Cymru, a fyddai’n ymwneud ag unrhyw ymateb sifil wrth gefn i ddiwedd y cyfnod pontio, wedi bod yn rhan o’r ymateb i COVID-19.

Mae Llywodraeth Cymru’n adolygu ei hanghenion staffio a’i bylchau. Mae dadansoddiad cynnar o’r galw wedi nodi bwlch adnoddau tymor byr o nifer o ddwsinau o rolau ychwanegol yn benodol ar gyfer gweithgarwch hanfodol ymadael â’r UE, gyda nifer o gannoedd hefyd yn angenrheidiol o bosibl dros amser ar gyfer swyddogaethau statudol, polisi neu gyflawni hanfodol, gwasanaethau a rhaglenni neu weithgarwch busnes hanfodol, y mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â gweithgareddau’r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn recriwtio rhai uwch weision sifil newydd ar radd Dirprwy Gyfarwyddwr. Mae hefyd yn ceisio symud rhai staff presennol i weithio ar bontio’r UE a recriwtio staff ychwanegol ar gontractau dros dro i swyddi ôl-lenwi. Ar hyn o bryd, ni lwyddasom i gadarnhau faint o staff sydd wedi cael eu symud na faint sydd wedi cael eu recriwtio.

Nid ydym wedi gwneud gwaith manwl yn edrych yn benodol ar y gweithlu mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o ganlyniad i’n hymgysylltiad â chyrff y GIG, llywodraeth leol a sectorau eraill bod staff yn cael eu hymestyn gan yr ymateb i COVID-19. Deallwn o’n hymgysylltiad â CLlLC a Chydffederasiwn y GIG fod llawer o sefydliadau’n cyfuno eu gwaith i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio â’u gwaith ar COVID-19, gan ei fod yn aml yn cynnwys yr un grŵp o staff. Er hynny, mae posibilrwydd cryf bod gan wasanaethau cyhoeddus lawer llai o allu staffio i’w neilltuo i ddiwedd y cyfnod pontio nag a oedd ganddynt o’r blaen pan oeddent yn paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

### Adnoddau Ariannol

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i redeg ei Chronfa Bontio. Nod y Gronfa Bontio yw helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau ac unigolion i baratoi ar gyfer goblygiadau, risgiau a chyfleoedd tymor byr a thymor hir perthynas newydd y DU â’r UE ac â gweddill y byd. Pan ysgrifenasom ddiwethaf ym mis Medi 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhwymo £34.5 miliwn drwy'r Gronfa. Ym mis Mehefin 2020 roedd Llywodraeth Cymru wedi rhwymo £47.5 miliwn, ac o’r swm hwn roedd £21.1 miliwn wedi cael ei wario eisoes, oedd yn gadael £26.4 miliwn i’w wario. Yn Ffigur 2, rydym wedi nodi’r 10 prosiect mwyaf yn ôl gwariant.

**Ffigur 2: Deg prosiect mwyaf Cronfa Bontio Ewrop yn ôl gwariant, ym mis Mehefin 2020**

| Prosiectau | £ miliynau a wariwyd |
|---|---|
| Cymorth Sgiliau Airbus | 2.5 |
| Cymru Fyd-eang II (cefnogaeth i brifysgolion) | 2.4 |
| Mynd i'r Afael â Thlodi ac Ansicrwydd Bwyd | 2.0 |
| Cwrdd â gofynion tystiolaeth pysgodfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gadael yr UE | 1.8 |
| Meincnodi Cig Coch | 1.7 |
| Awdurdodau lleol yn paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb | 1.2 |
| Atgyfnerthu Enw Da a Chysylltiadau Rhyngwladol Cymru | 1.0 |
| Cryfhau Cydlyniant Cymunedol | 1.0 |
| Hawliau Dinasyddion yr UE | 0.9 |
| Tuag at Genedl Fwyd Byd-eang Cymru | 0.7 |

Sylwer: Cyflwynir y prosiectau yn y tabl hwn ar lefel fanylach nag yn ein llythyr ym mis Medi 2019, ac felly ni ellir cymharu'r tabl hwn â'r tabl yn y llythyr hwnnw.

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru

Er bod y Gronfa Bontio yn ffynhonnell gymorth sylweddol, mae'r symiau yn llawer llai na rhai'r rhaglen ariannu a mentrau sydd wedi'i chyflwyno i gynorthwyo busnesau a chymunedau i reoli effeithiau economaidd a chymdeithasol COVID-19.

## Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli diwedd y cyfnod pontio

### Parodrwydd ar gyfer y newidiadau yn y berthynas â'r UE

O'r blaen, daeth swyddogion Llywodraeth Cymru at ei gilydd i baratoi ar gyfer Brexit yn ei Phwyllgor Ymadael â'r UE[8]. Disodlwyd hwn gan Fwrdd Sicrwydd yn dilyn Gadael yr UE. Cefnogir y Bwrdd Sicrwydd gan ddau is-grŵp: y Bwrdd Gweithredu, sy'n ystyried materion yn ymwneud â pharatoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yng Nghymru, a'r Bwrdd Trafodion, sy'n ymdrin â'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE ac â thrafodaethau masnach y DU â gweddill y byd. Mae Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar Bontio a Masnach Ewropeaidd wedi parhau i gyfarfod drwy gydol y flwyddyn a goruchwylio cynnydd y gweithgarwch parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi parhau i gyfarfod i rannu gwybodaeth, cynllunio ac asesu parodrwydd drwy Banel Parodrwydd (yr UE) Llywodraeth Leol. Mae'r Panel hwnnw'n cynnwys rhai Prif Weithredwyr cynghorau, pob un yn cynrychioli rhanbarth ehangach o Gymru, gyda chefnogaeth nifer o Gyfarwyddwyr sy'n arwain ar feysydd gwasanaeth allweddol. Dywed CLILC fod y Panel wedi parhau i gyfarfod drwy gydol pandemig COVID-19. Parhaodd cynghorau i gyflogi un swyddog o leiaf gyda chyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer Brexit/diwedd y cyfnod pontio, sy'n cael ei gyllido drwy Gronfa Bontio Ewrop.

Mae cydweithredu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi parhau, gyda chynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn rhan o'r grwpiau cynllunio ar gyfer Brexit a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.[9] Mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn parhau i gyflogi aelod pwrpasol o staff, sy'n cynorthwyo i gynllunio ar y cyd a rhannu gwybodaeth ar draws GIG Cymru. Dywedodd wrthym, er bod gwaith wedi bod yn mynd ymlaen, ei fod yn awr yn cael ei gyflymu gyda chyfarfodydd a chyfathrebu'n digwydd yn amlach tuag at ddiwedd y cyfnod pontio.

### Rheoli argyfyngau sifil

Yn fy niweddariad blaenorol, nodais rai o'r trefniadau oedd yn eu lle ar gyfer ymateb brys i Brexit heb gytundeb. Rhoddwyd prawf ar lawer o'r trefniadau hynny gan bandemig COVID-19. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y cynllunio ar gyfer dim cytundeb wedi rhoi gwasanaethau cyhoeddus Cymru mewn sefyllfa gryfach i ymateb i COVID-19, oherwydd bod gwasanaethau cyhoeddus wedi adeiladu

---

[8] Y Pwyllgor Ymadael â'r UE oedd yr uwch weision sifil yn y Pwyllgor Gweithredol (ynghyd â nifer gyfyngedig o swyddogion eraill) yn cyfarfod yn benodol i ystyried Brexit.

[9] Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Fforwm Cynghorol Rhanddeiliaid Gweinidogol Brexit, Grŵp Arwain Pontio'r UE a Grŵp Uwch Berchnogion Cyfrifol Brexit.

rhwydweithiau cryf ac wedi gweithio gyda'i gilydd ar ymarferion yn arwain i fyny at fis Rhagfyr 2019.

Dangosodd COVID-19 y gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio a rhedeg yr ymateb brys dros gyfnod estynedig. Aeth gwasanaethau cyhoeddus o ddechrau sefydlog a buont yn gweithio hyd at saith diwrnod yr wythnos (dwy sifft hir y dydd). Mae digwyddiadau COVID-19 hefyd wedi darparu gwybodaeth werthfawr am yr hyn a oedd o'r blaen yn faes ansicr iawn – sef y risg y gallai'r cyhoedd wneud penderfyniadau rhesymegol unigol ynghylch pentyrru nwyddau sy'n cael canlyniadau sylweddol o bosibl ar y gymdeithas ehangach. Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi dysgu gwersi oddi wrth y gwaith hwn ac wedi cynnwys hyn yn eu cynlluniau.

Er hynny, mae heriau sylweddol yn parhau o hyd o ran unrhyw ymateb brys i ddiwedd y cyfnod pontio heb gytundeb. Mae'n amlwg oddi wrth ein hymgysylltiad ehangach, er iddo gael ei gyflawni, fod staffio'r ymateb am gyfnodau hir wedi bod yn dreth sylweddol yn sefydliadol ac ar staff unigol. Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi cynyddu eu hymateb brys, gan gyfuno gwaith ar yr ymateb i'r ail don o achosion COVID-19 gyda chynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Ochr yn ochr â'r cynllunio ffurfiol ar gyfer argyfwng, bu Arweinwyr etholedig mewn llywodraeth leol yn cyfarfod yn rheolaidd, gan gynnwys gyda Gweinidogion, i ymateb i agweddau gwleidyddol yr ymateb i ddiwedd y cyfnod pontio.

Her bellach oedd yr ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Pan ysgrifenasom yn 2019, roedd yna gynllun ledled y DU ar gyfer y materion brys allweddol yn ymwneud â Brexit heb gytundeb, sef Ymgyrch Yellowhammer. Mae Llywodraeth y DU wedi cyfleu yn glir ei bwriad i beidio ag ailgychwyn na newid y trefniadau hynny. Mae wedi cynhyrchu dogfen sefyllfa yr Achos Gwaethaf Rhesymol. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi cyfyngu mynediad at y casgliad llawn o ragdybiaethau i nifer fechan o unigolion yn Llywodraeth Cymru. Ni chaniateid rhannu, ond i raddau cyfyngedig, is-gasgliadau bychain o'r rhagdybiaethau hyn â chydweithwyr eraill yn Llywodraeth Cymru ac ni chaniateid rhannu'r rhain â phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn wedi creu heriau o ran gwneud dealltwriaeth gyffredin yn bosibl o'r hyn oedd y risgiau a sut yr oeddent yn cael eu rheoli ar lefel y DU.

Deallwn fod y cyfyngiadau hyn wedi cael eu llacio i raddau yn ddiweddar a bod cydweithio â Llywodraeth y DU wedi cynyddu. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fersiwn gryno o'r sefyllfa Achos Gwaethaf Rhesymol. Rhannwyd y crynodeb hwn gyda'r Fforymau Cydnerthedd Lleol, sy'n arwain ar gynllunio sifil wrth gefn yn lleol. At hynny, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cymryd rhan ar fwrdd argyfyngau sifil gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r bwrdd hwn yn canolbwyntio ar baratoadau brys ledled y DU ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn ogystal â phwysau gaeaf eraill posibl a allai gael effaith ledled y DU.

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Reference:** AC/221/caf
**Date issued:** 18 Tachwedd 2020

Annwyl Llŷr

## Cod Ymarfer Archwilio

Mae'n ofynnol i mi, dan adran 10 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gael eu cyflawni. Mae'n rhaid i'r Cod ymgorffori'r hyn sy'n ymddangos i mi yr arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, y gweithdrefnau a'r technegau sydd i gael eu mabwysiadu wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Fel y byddwch yn cofio, eglurodd Huw Vaughan Thomas, fy rhagflaenydd, yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar ei archwiliad o gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16, ei fod wedi rhoi trefniadau yn eu lle i adolygu'r Cod yn flynyddol. Rwyf wedi cadw'r trefniadau hynny.

Yn dilyn cwblhau'r adolygiad eleni, cyhoeddais God diwygiedig ar 30 Hydref 2020, sydd ar gael drwy'r ddolen gyswllt hon: **Cod Ymarfer Archwilio.**

Roedd y prif newidiadau i'r Cod fel a ganlyn:

- diweddaru rhai cyfeiriadau deddfwriaethol, a'r mwyaf nodedig o'r rhain oedd newid cyfeiriadau o fod at y Cynulliad i fod at y Senedd;
- newid y rhagair gan Huw Vaughan Thomas am un gennyf fi fy hun; ac
- ailfrandio'r Cod fel dogfen Archwilio Cymru.

Gan nad oes unrhyw newidiadau o sylwedd i'r arweiniad yn y Cod nid oedd angen ymgynghori ynglŷn â'r newidiadau hynny.

Byddaf yn parhau i adolygu fy Nghod yn flynyddol ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i newidiadau gael eu gwneud.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc Mr Nick Ramsay AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Diweddariad ar y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

## Tachwedd 2020

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Un – Cyflwyniad | 2 |
| Dau – Y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel | 6 |
| Tri – Terfynu'r Rhaglen | 8 |
| Pedwar – Pontio i Fusnes Fel Arfer | 9 |


**Dogfen 1** – Llywodraeth Cymru: Argymhellion Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel

**Dogfen 2** - Adroddiad Terfynu'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

**Dogfen 3** – Llythyr Terfynu'r Uwch-swyddog Cyfrifol at Gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel

**Dogfen 4** - Llythyr ymateb at yr Uwch-swyddog Cyfrifol gan Gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel

**UN**

**CYFLWYNIAD**

Yn 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydlynu ymagwedd strategol at ddiogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd, ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i gadw'n ddiogel.

Rydym yn cytuno gyda chasgliad sylfaenol yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd, fodd bynnag, byddem yn pwysleisio'r pwynt fod diogelwch cymunedol yng Nghymru yn faes cymhleth am lawer o resymau Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ei adroddiad "Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru" y graddau y mae materion diogelwch cymunedol yn rhychwantu'r "ffiniau anwastad" rhwng meysydd cyfrifoldeb datganoledig ac annatganoledig a'r cymhlethdod sy'n codi o ganlyniad i hynny. Eir i'r afael â'r materion hyn yn fras isod, ac yn fanylach ym mhrif benodau'r adroddiad hwn, ac maent yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

**(i) Cymhlethdod cyflawni swyddogaethau heb eu datganoli mewn tirwedd ddatganoledig. Mae hwn yn rhywbeth sy'n effeithio ar draws pob lefel, yn wleidyddol ac yn weithredol.**

Er bod y dirwedd yn gymhleth, mae ymrwymiad gan yr holl bartneriaid datganoledig ac annatganoledig i weithio gyda'i gilydd i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru. Yn gynnar iawn yn y Rhaglen, aethom ati i ddatblygu datganiad arweiniad ar y cyd a oedd yn nodi'r ymrwymiad hwnnw a phwysigrwydd gwaith y Rhaglen.

Mae plismona yng Nghymru wedi'i ddatganoli i'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sydd, ynghyd â'r pedwar Prif Gwnstabl, â pherthynas weithio agos a chynhyrchiol gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r berthynas hon wedi cryfhau ers dechrau'r pandemig. Mae Bwrdd Plismona Cymru yn sicrhau deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid bob chwarter Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Medi ac fe'i cadeiriwyd gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Thema'r cyfarfod oedd Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol. Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd yn bresennol yn y cyfarfod a chynrychiolwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Gartref gan uwch-swyddogion.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gydag adrannau Llywodraeth y DU am fod polisi cyfiawnder troseddol wedi'i ddatblygu i sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl gyda gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Er enghraifft, yn ddiweddar ymatebom i

ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar ddyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaeth o atal a mynd i'r afael â thrais difrifol. Gofynasom a fyddai gan yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio (sef opsiwn un yn y ddogfen ymgynghori[1] - i ddeddfu i roi dyletswydd newydd ar sefydliadau penodol i roi sylw dyledus i atal a mynd i'r afael â thrais difrifol) y cymhwysedd deddfwriaethol i osod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaeth datganoledig yng Nghymru. Dim ond un enghraifft o lawer yw hon sy'n dangos y modd y gweithiwn gydag adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod eu polisïau a'u deddfwriaeth yn briodol i dirwedd Cymru.

Yn ystod pandemig COVID-19, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd i reoli achosion yn y carchardai. Gwnaethom weithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru i flaengynllunio - i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o dan raglen rhyddhau'n gynnar Llywodraeth y DU, a hefyd ar gyfer achosion arferol o ryddhau. Mae'n bwysig ein bod, nid yn unig yn sicrhau llety priodol i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, ond ein bod hefyd yn rhoi'r cymorth a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd eu hangen.

Ym mis Mai 2020, cawsom gadarnhad y caiff y Ganolfan Breswyl gyntaf i Fenywod ei datblygu yng Nghymru. Mae canolfan breswyl i fenywod yn rhan greiddiol o'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru, a fydd yn cynnig dewis amgen yn lle'r ddalfa, sy'n ystyried amgylchiadau ac anghenion unigolyn.

Yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth ynglŷn â niferoedd troseddwyr a dedfrydau byr, penderfynwyd lleoli'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yn ne Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n arweinydd cyffredinol ar y prosiect a phartneriaid eraill er mwyn cytuno ar derfynau amser, model cynllunio'r gwasanaeth a'r safle penodol.

**(ii) Mae cymhlethdod a nifer y grwpiau a'r sefydliadau ar lefel ranbarthol a lleol yn creu her sylweddol o ran arweinyddiaeth strategol a chydgysylltiedig a chysondeb.**

Mae cyfarfodydd cynhyrchiol a chydweithredol sy'n rhychwantu'r dirwedd ddatganoledig ac annatganoledig yn cael eu cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Er enghraifft, mae gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan gynrychiolaeth o blith sefydliadau sy'n cynnwys y Gwasanaeth Carchardai, y Gwasanaethau Llysoedd, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabliaid, y Trydydd Sector yng Nghymru, llywodraeth leol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd strategol Cymru gyfan hwn yn darparu cyfeiriad ac yn pennu blaenoriaethau gwaith ar gyfer Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru (IOM Cymru) ar lefel ranbarthol[2]. Fodd bynnag, islaw'r lefel ranbarthol, mae'r dirwedd sefydliadau a grwpiau yn lleol yn orlawn, yn gymhleth ac yn aml heb eu cydgysylltu neu'n gyson, gyda'r un bobl o'r un sefydliadau yn mynychu cyfarfodydd aml ar themâu tebyg neu gysylltiedig. Nid yw'r "neges" neu'r uchelgais bob amser yn glir

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/serious-violence-new-legal-duty-to-support-multi-agency-action

[2] https://www.iomcymru.org.uk

nac yn gyson ar draws y grwpiau amrywiol, ac efallai nad y rhain sy'n sicrhau'r budd gorau o ran y blaenoriaethau a'r amcanion cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn ystod y Rhaglen, rydym wedi cwblhau darn o waith sydd wedi nodi'r grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol pwysicaf. Cyfarfu rheolwr llywodraeth leol y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn rheolaidd â'r awdurdodau lleol a grwpiau a sefydliadau lleol eraill er mwyn deall a, lle y bo'n briodol, helpu'r grwpiau hyn i fod yn fwy cyson â'r strwythur cenedlaethol a rhanbarthol yn well. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflawni'r elfen hon o waith y rhaglen, er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud yn barod, er enghraifft, yng Ngwent mae'r holl sefydliadau lleol yn gweithredu o dan ambarél Gwent Mwy Diogel[3] erbyn hyn sy'n eu galluogi i fabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig a holistaidd at gomisiynu gwasanaethau.

Rydym wedi cyfrannu cyllid i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu strwythurau partneriaethau rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel yng Ngogledd Cymru. Roedd nifer o Adolygiadau Ardal Leol a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru gan yr Uned Trais a Bregusrwydd wedi canfod bod strwythurau partneriaeth rhanbarthol yn aneglur ac yn gymhleth i'w dilyn. Argymhellwyd y dylid ad-drefnu'r strwythurau presennol, a sefydlu pedwar bwrdd strategol newydd yn lle'r naw presennol. Defnyddiwyd y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau i gefnogi'r broses o gynllunio, pontio a gweithredu'r strwythur a'r byrddau newydd. Bydd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd ei sefydlu[4] yn goruchwylio'r gwatith hwn yn y dyfodol.

**(iii)Data – ar hyn o bryd mae toreth o sefydliadau yn casglu data ond nid yw bob amser yn gyson ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Ac yn aml, nid yw sefydliadau yn ei rannu i'w ddefnyddio ar sail amlasiantaeth.**

Mae'n ofynnol rhannu a dadansoddi data ar lefel amlasiantaeth fel sail ar gyfer gweithio effeithiol mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, ac mae hwn yn dal yn wendid mawr ledled Cymru. Mae rhwystrau sylweddol, fel diffyg adnoddau, diwylliant data gwrth-risg a threfniadau protocol rhannu gwybodaeth bersonol aneffeithiol yn dal i rwystro gwaith ymyrryd ac atal cynnar ar sail amlasiantaeth. Er bod ymarfer da yn bodoli yng Nghymru, er enghraifft, Bwrdd Troseddau Difrifol a Threfnedig Casnewydd a gafodd ei ganmol am ei ddull partneriaeth amlasiantaeth wrth ddelio â throseddau difrifol a threfnedig ar lefel leol[5], nid yw'r achosion hyn yn rhai cyffredin.

Datblygwyd achos busnes cynhwysfawr dros fuddsoddi gan sawl partner er mwyn cynyddu a gwella adnoddau dadansoddi a thechnolegau 'rhannu data' digidol. Bydd mwy o adnoddau a gallu a gefnogir gan dechnoleg well yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau strategol a thactegol, yn gwella gwaith cynllunio gwasanaethau ac yn helpu i sicrhau y caiff y gwasanaethau cywir eu comisiynu i fynd i'r afael â

[3] http://www.gwent.pcc.police.uk/engagement/partnerships/safer-gwent/
[4] Sefydlwyd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel yn 2019 ac fe'i cadeirir ar y cyd gan CLlLC a Grŵp Plismona yng Nghymru. Ei ddiben yw rhoi arweinyddiaeth, trosolwg a chyfeiriad i raglen ar y cyd rhwng llywodraeth leol a'r Grŵp Plismona yng Nghymru, sy'n cynnwys partneriaid eraill, gyda'r nod o sicrhau y rhoddir arweinyddiaeth effeithiol ar y cyd i gefnogi gwaith partneriaeth lleol a fydd yn cefnogi cymunedau diogel, cadarn a mwy hyderus.
[5] https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/News/articles/2019/February-2019/Praise-for-partnership-project-tackling-Serious-and-Organised-Crime.aspx

thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a materion a nodwyd drwy ymchwil ddadansoddol gan arbenigwyr.

Mae'r Uned Atal Trais wedi penodi dau uwch-ddadansoddwr, un o Iechyd y Cyhoedd a'r llall o Blismona. Mae hyn yn cynnig set sgiliau cyflenwol i ddadansoddi data yn ogystal â mynediad at systemau gwahanol i dynnu data ohonynt. Ers mis Ebrill, mae'r Uned Atal Trais wedi paratoi adroddiadau Monitro Trais ar gyfer pob rhan o Gymru sydd hefyd yn dadansoddi effaith COVID-19 ar bob math o drais. Mae'r adroddiadau hyn yn cyfuno ystod o ddata, gan gynnwys data gan yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, iechyd a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r bygythiadau sy'n codi.

Mae adroddiadau thematig hefyd wedi cael eu datblygu, megis cost trais i'r GIG, yr economi fin nos, troseddau sy'n ymwneud â chyllyll ac ati. Unwaith eto, mae’r rhain wedi defnyddio data gan wahanol asiantaethau yng Nghymru. Mae data adrannau brys iechyd ar gael yn Ne Cymru sydd, ynghyd â data gan yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans, yn helpu i ddatguddio niwed cudd a thrais heb ei gofnodi. Mae'r Uned Atal Trais hefyd wedi comisiynu Hwb Data Atal Trais. I ddechrau, bydd yn dal data'r heddlu, iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans ond bydd modd iddi ehangu ymhellach. Mae hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a heddluoedd i sicrhau ei bod yn cael gafael ar ddata a all helpu i atal trais ac yn eu defnyddio'n effeithiol.

**(iv) Adnoddau, o ran arian a staffio rheng flaen.**

O'n trafodaethau partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid eraill, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) sefydliadau'r trydydd sector a darparwyr gwasanaethau diogelu, mae'n amlwg bod ewyllys ar y cyd i wella diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, un thema gyffredin yw, ar ôl cyfnod hir o gyni, bod diffyg capasiti a gallu cyffredinol i symud o sefyllfa gyflawni ymatebol i un ragweithiol. Mae niferoedd staff rheng flaen sefydliadau wedi’u gostwng yn ddifrifol, ac mae hyn wedi rhwystro’r agenda cyflawni’n ddifrifol, gydag effaith sylweddol ar swyddogaethau a rhaglenni diogelwch cymunedol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn dal i fod yn heriol iawn, ond rydym wedi neilltuo cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel i Gymru Gyfan, a gynhelir gan CLlLC, a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth diogelwch cymunedol. Mae'r broses o recriwtio i swyddi allweddol yn y rhwydwaith yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae hyn yn agwedd allweddol y gellir ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ymrwymo i roi cyllid yn y dyfodol. Bydd angen i bartneriaid barhau i nodi cyfleoedd i weithio’n graffach a gyda’i gilydd er mwyn cysoni’u gweithgareddau diogelwch cymunedol o fewn eu “busnes fel arfer”.

Mewn rhai ardaloedd - fel Gogledd Cymru a Sir Benfro - mae gwaith uchelgeisiol yn mynd rhagddo i ddatblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth priodol i gefnogi ac ysgogi gweithio mewn partneriaeth mwy effeithiol. Mae Gogledd Cymru wrthi’n adolygu ei ‘dirwedd’ partneriaeth hefyd gyda’r bwriad o ad-drefnu a symleiddio strwythurau, dileu dyblygu a chyflawni gwell cysondeb mewn perthynas â mynd i’r afael â

bregusrwydd cymunedau ac unigolion a chamfanteisio'n droseddol arnynt (e.e. llinellau cyffuriau, caethwasiaeth fodern, camfanteisio'n rhywiol ar blant).

**(v) Nid yw meysydd polisi cysylltiedig yn cael eu cysoni'n rheolaidd ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.**

Mae anghysondeb o ran nodau, amcanion a gweithredu polisi ar draws y partneriaid amrywiol yn fater pwysig. Un darn o waith allweddol yn hyn o beth yw datblygu Fframwaith Trais Difrifol ar gyfer Cymru, a gomisiynwyd ar y cyd gan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac a ddatblygwyd ar y cyd gydag Uned Trais a Bregusrwydd y Swyddfa Gartref ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y fframwaith yn darparu pecyn cymorth a chanllawiau effeithiol i danategu gweithio mewn partneriaeth yn lleol – law yn llaw â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cudd-wybodaeth sy'n briodol yn lleol mewn perthynas â throseddau difrifol a threfnedig, gangiau a thrais difrifol.

Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, cyhoeddwyd y Glasbrintiau ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid ym mis Mai 2019, a gynhwysir yng nghynllun Parhad ac Adfer Llywodraeth Cymru. Aed i'r afael â'r gwaith o ddatblygu trefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys creu Bwrdd Rhaglen o uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru (Cadeirydd), y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Swyddfa Gartref a'r Heddlu/Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dylanwadodd y materion a nodir uchod yn fawr ar gynllun cyflawni'r Rhaglen a'i hamcanion er mwyn sicrhau yr aed i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol.

## DAU

## Y RHAGLEN CYMUNEDAU MWY DIOGEL

Mewn ymateb i adroddiad 2016 SAC, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad mawl o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru a ddaeth i ben drwy gyhoeddi adroddiad *Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel*[6] ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys 11 o argymhellion i wella gwaith diogelwch cymunedol yng Nghymru. Nodir yr argymhellion hyn yn Nogfen 1.

Gwnaeth yr adolygiad hefyd bennu cydweledigaeth newydd ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, lle:

1. Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnerthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb;

[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf

2. Mae gan y llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd;
3. Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chamau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, nododd yr adolygiad chwe egwyddor. Bu'r egwyddorion hyn yn sail i'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ac yna'n rhan o ffrydiau gwaith y Rhaglen.

Penodwyd Uwch-swyddog Cyfrifol o Fwrdd y Rhaglen i arwain pob un o'r chwe ffrwd waith. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r cynllun cyflawni yn defnyddio'r fethodoleg arweinyddiaeth wasgaredig er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad allweddol yn cael ei gynnwys, ac y byddai'n gydweithredol ac yn integredig o ran dull gweithredu. Rhoddodd bwyslais ar weithredu cynaliadwy a fyddai'n atal neu'n ymyrryd mor gynnar â phosibl.

Daeth yr Uwch-swyddogion Cyfrifol o'r grŵp rhanddeiliaid diogelwch cymunedol ehangach (Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Iechyd y Cyhoedd a'r trydydd sector) a enwyd yn erbyn pob un o'r ffrydiau gwaith isod.

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth - Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.
- Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol - Chris Davies, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol - Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys - Bernie Bowen Thomson, Cadeirydd Cyfiawnder Cymunedol Cymru
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl - Joanne Hopkins, Cyfarwydd Hwb Cymorth ACE, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor – Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

Y rhain yw'r **egwyddorion allweddol** sydd, ynghyd ag 11 o ymrwymiadau blaenoriaeth a gynlluniwyd i gefnogi gwireddu'r gydweledigaeth hon ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, yn ffurfio Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru (2018-2020) erbyn hyn.

Bwriwyd ymlaen â'r 'Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel' o dan drefn lywodraethu a chyfarwyddyd Bwrdd Rhaglen amlasiantaethol, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, Alun Davies AS ac wedyn gan Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Ymgymerodd Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru â rôl Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen.

- Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr:
- Llywodraeth Cymru;
- Y Swyddfa Gartref;
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru (Grŵp Plismona yng Nghymru);
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLCP)
- Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol;
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi;
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru;
- Prif Swyddogion Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyfiawnder Cymunedol Cymru;
- Byrddau Iechyd Lleol Cymru.

**TRI**

**TERFYNU'R RHAGLEN**

Terfynwyd y Rhaglen yng nghyfarfod olaf y bwrdd ar 15 Mehefin 2020. Cafodd aelodau'r Bwrdd gyfle i ystyried a gwneud sylwadau ar yr adroddiad terfynu drafft a'r adroddiadau diweddaru terfynol ar y ffrydiau gwaith a ddarparwyd gan bob Uwch-swyddog Cyfrifol. Cytunwyd ar adroddiad terfynu'r Rhaglen gan y Bwrdd ac fe'i hatodir fel Dogfen 2.

Mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus diweddar, na welwyd ei debyg o'r blaen, wedi effeithio ar y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, fel llawer o flaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'n werth nodi bod pandemig COVID-19 yn sicr wedi newid diogelwch cymunedol yng Nghymru; er ein bod wedi cwtogi ar lawer o'r gwaith yn y Rhaglen hon dros dro, bu cryn dipyn o ymgysylltu a gweithgarwch mewn cymunedau lleol o ganlyniad i'r ymateb ar y cyd gan yr holl asiantaethau. Mae cyfle i fyfyrio ar oblygiadau posibl COVID-19 i'r rhanddeiliaid hynny sy'n ymwneud â gwaith diogelwch cymunedol, ac yn wir, gyfle i ddeall sut i fanteisio ar well trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

 ganlyniad i'r pandemig a chwtogi ar rywfaint o'r gwaith pan oedd yr argyfwng ar ei anterth ac ailflaenoriaethu adnoddau, nid yw rhai o'r amcanion wedi datblygu i'r graddau a gynlluniwyd o dan y Rhaglen. Fodd bynnag, gwnaed cryn dipyn o waith a gellir gweld crynodeb o'r cyflawniadau allweddol yn adran 4 (tudalennau 3-8) o'r adroddiad terfynu yn Nogfen 2.

**PEDWAR**

**PONTIO I FUSNES FEL ARFER**

Fel y nodir uchod, mae pandemig COVID-19 wedi tarfu ar gynnydd. Arweiniodd hyn at bontio i fodel 'busnes fel arfer' cyn bod rhai agweddau ar y gwaith wedi datblygu ac wedi aeddfedu'n llawn. Mae trefniadau llywodraethu eisoes ar waith ar gyfer llawer o'r amcanion sydd heb eu cyflawni ac fe'u crynhoir yn adran 5 (tudalennau 9-10) o'r adroddiad terfynu yn Nogfen 2.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r gwaith sy'n weddill yn dal i fod ar gam cynnar ac mae angen trefniadau goruchwylio a llywodraethu cyn iddo ddod yn rhan lawn o'r trefniadau busnes fel arfer presennol. Ysgrifennodd Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen (Dogfen 3) at gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd i ofyn iddynt fod yn gyfrifol am lywodraethu nifer bach o amcanion sydd eto i'w cyflawni (a restrir yn Atodiad A i'r llythyr yn Nogfen 3). Mae'r cadeiryddion wedi cytuno i wneud hynny a byddant yn goruchwylio proses bontio'r amcanion hyn i fusnes fel arfer (Dogfen 4). Yn y llythyr mewn ymateb (dogfen 4), mae'r cadeiryddion yn cyfeirio at y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol yn lleol. Cytunir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â diddordeb mewn unrhyw ymgais i ad-drefnu partneriaethau diogelwch cymunedol lleol.

Mae'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd hefyd wedi cytuno i barhau i roi'r arweinyddiaeth strategol ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gadw at y weledigaeth a ddatblygwyd gan y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, ac a gefnogwyd gan Weinidogion.

**Dogfen 1:Llywodraeth Cymru: Argymhellion Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel**

1. Gweithio gyda Chomisiwn Cyfiawnder Cymru sydd newydd ei sefydlu i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru ac adnabod opsiynau i ddatblygu system gyfiawnder ar wahân i Gymru, sy'n gwella mynediad pobl at gyfiawnder, yn lleihau troseddau ac yn hybu adsefydlu ac yn cynrychioli anghenion Cymru go iawn.

2. Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.

3. Datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei ddatganoli ac sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

4. Sefydlu swyddogaeth arweinyddiaeth polisi ac arfer 'partneriaeth' diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arweinwyr 'datganoledig' perthnasol eraill ar ran Llywodraeth y DU.

5. Datblygu canllawiau newydd sy'n berthnasol yn benodol i Gymru ac sy'n adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol ac sy'n nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol sicrhau eu bod:
    - Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
    - Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
    - Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
    - Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
    - Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
    - Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

Ymhlith y meysydd arfaethedig i'w cynnwys yn y canllawiau bydd:

- Egluro'r disgwyliadau o ran asesu strategol a dulliau busnes sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, gan gynnwys cynllunio a chomisiynu gwasanaethau partneriaethau a rhannu data personol a chyfanredol;
- Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion statudol i 'brif-ffrydio' a geir yn Adran 17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn (sydd â chysylltiad agos â'r gofynion o ran cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol);
- Lliflinio strwythurau partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i sicrhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mwy effeithiol ac egluro'r cyswllt â/rôl BGCau gan barhau i ateb y gofynion statudol mewn perthynas â CONTEST, BCAau Camddefnyddio Sylweddau, Lleihau Aildroseddu, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camddefnyddio Sylweddau, Caethwasiaeth Fodern a.y.b
- Sicrhau bod prif weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru'n gallu dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn - boed trwy

drefniadau partneriaeth lleol neu ranbarthol - gan gynnwys darparu swyddogaeth arweiniol gydnabyddedig ar gyfer diogelwch cymunedol gyda'r sefydlogrwydd a'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i yrru'r agenda Cymunedau Mwy Diogel yn ei blaen yng nghyd-destun partneriaethau lleol a rhanbarthol;

- Cryfhau rôl a statws sefydliadau'r trydydd sector o fewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a datblygu a hybu dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr y trydydd sector;
- Cryfhau rôl a statws sefydliadau'r trydydd sector o fewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a datblygu a hybu dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr y trydydd sector;
- Egluro'r disgwyliadau o ran ennyn ymgysylltiad dinasyddion a'u cynnwys mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a phrosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

6. Ystyried sut i sefydlu rhwydwaith diogelwch cymunedol cenedlaethol newydd a chynhwysol i Gymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol a helpu i ddatblygu'r 'wybodaeth a'r sgiliau priodol' sydd eu hangen i roi'r weledigaeth newydd ar waith.

7. Ystyried sut i sefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein i Gymru a fydd yn cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso, ynghyd ag ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu diogelwch cymunedol yn benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon).

8. Archwilio cyfleoedd i dreialu trefniadau arolygu thematig ar y cyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol mewn perthynas â'r thema 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol.

9. Ystyried sut i wella rhaglenni ariannu diogelwch cymunedol i sicrhau cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwy hyblyg ac yn fwy hirdymor i gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys modelau cydgynhyrchu ac elfennau cyllidebu cyfranogol.

10. Argymhellir bod adolygiad trawslywodraethol o 'batrymau' rhanbarthol yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn addas at diben.

11. Argymhellir bod asesiad o drefniadau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n briodol ar lefel leol.

Dogfen 2

Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

Adroddiad Terfynu

Awdur: **Hannah Johnson**

Statws: **Fersiwn Derfynol**

Perchennog: **Karin Phillips**

Fersiwn: **Terfynol**

**Cynnwys**

**Tudalen**


1. Cyflwyniad 4
2. Cyd-destun 4
3. Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel 4
4. Cyflawniadau'r Rhaglen 5
5. Pontio i Fusnes fel Arfer 10

Atodiad A - Adroddiad 2016 SAC: Argymhellion

Atodiad B - Adroddiad SAC 2016: Ymateb Llywodraeth Cymru.

Atodiad C - Bwrdd Aelodaeth y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

Atodiad D - Llywodraeth Cymru: Argymhellion Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel

Atodiad E - Trosolwg o Ad-drefnu Partneriaethau Rhanbarthol (Diogelwch Cymunedol, Plismona a Chyfiawnder Troseddol)

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Adroddiad Terfynu'r Rhaglen hon yn adolygu'r ffordd y mae'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel wedi cyflawni'r amcanion yng nghynllun y rhaglen a'r argymhellion i gefnogi gweledigaeth yr adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel a gomisiynwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd, Carl Sergeant a'i olynydd Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi trosolwg ac yn amlinellu llwybr ar gyfer bwrw ymlaen â'r amcanion sydd eto i'w cyflawni.

## 2. CYD-DESTUN

Yn 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yr adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru a wnaeth sawl argymhelliad i wella Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn Atodiad A. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydlynu ymagwedd strategol at ddiogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd, ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i gadw'n ddiogel.

Nododd Llywodraeth Cymru yr argymhellion ac ymrwymodd i gynnal adolygiad ehangach, *Gweithio Gyda'n i greu Cymunedau Mwy Diogel*, er mwyn symud agenda diogelwch cymunedol ymlaen ac ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Atodiad B yn cyflwyno'r ymateb swyddogol i adroddiad SAC. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018. Ar ôl cyhoeddi adolygiad *Gweithio Gyda'n Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel* yn 2017, sefydlwyd 'Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel' gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'i phartneriaid a rhanddeiliaid datganoledig ac annatganoledig yng Nghymru.

## 3. RHAGLEN CYMUNEDAU MWY DIOGEL

Bwriwyd ymlaen â'r 'Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel' o dan drefn lywodraethu a chyfarwyddyd Bwrdd Rhaglen amlasiantaethol, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, Alun Davies AS ac wedyn gan Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Ymgymerodd Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru â rôl Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen. Nodir aelodau Bwrdd y Rhaglen yn Atodiad C.

Nododd yr adolygiad o *Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel* gydweledigaeth newydd ar gyfer Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, lle:

- Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnerthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb.
- Mae gan y llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd;
- Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chamau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, nododd yr adolygiad chwe egwyddor. Bu'r egwyddorion hyn yn sail i'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ac yna'n rhan o ffrydiau gwaith y Rhaglen. Cafodd llawer o'r ffrydiau gwaith hyn eu harwain a'u cefnogi gan Reolwr Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, Stephen Carr. Arweiniwyd pob ffrwd waith gan Uwch-swyddog Cyfrifol o'r grŵp rhanddeiliaid diogelwch cymunedol ehangach (Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Iechyd y Cyhoedd a'r trydydd sector) a enwyd yn erbyn pob un o'r ffrydiau gwaith isod:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth; - Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.
- Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol; - Chris Davies, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol; - Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys; - Bernie Bowen Thomson, Cadeirydd Cyfiawnder Cymunedol Cymru
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl; - Joanne Hopkins, Cyfarwydd Hwb Cymorth ACE, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor. – Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

## 4. CYFLAWNIADAU'R RHAGLEN

Lluniodd Uwch-swyddog Cyfrifol pob ffrwd waith adroddiad terfynu ar gyfer ei ffrwd waith a oedd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd a'r ffordd y byddai'r amcanion a oedd yn weddill yn pontio i fusnes fel arfer i'w cwblhau.

1. <u>Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth</u>

- Ystyriodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan achos busnes dros ddarparu adnoddau ychwanegol i ddatblygu Hwb/Tîm Data a Dadansoddi Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019. Yna, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2020 i gefnogi'r achos dros adnoddau ychwanegol.
- Cytunodd y Bwrdd fod achos dros gysoni a chomisiynu cynhyrchion ac adnoddau dadansoddi yn well, a fyddai'n arwain at fwy o effeithlonrwydd a chytunodd fod angen adnoddau ychwanegol mewn egwyddor. Sefydlu

rhwydwaith data a dadansoddi amlasiantaethol i Gymru (fel rhan o'r cynnig ar gyfer rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel ehangach – adran 2 isod);

- Cefnogodd y Grŵp Plismona yng Nghymru, y pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r pedwar Brif Gwnstabl secondiad 12 mis i Brif Ddadansoddydd ymuno ag Uned Atal Trais Cymru[7] i ddatblygu dull Hwb/Tîm Data a Dadansoddi Amlasiantaethol.
- Dechreuodd yr unigolyn yn ei swydd ar 1 Mehefin 2020. Y dasg hon i'r unigolyn hwn fydd datblygu Asesiad Anghenion Strategol i Gymru Gyfan o fathau 'llinellau cyffuriau' o drais a chamfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed, gan ddefnyddio model Hwb Data a Dadansoddi Amlasiantaethol Cymru Gyfan a ddisgrifir fel 'profi cysyniad'. Fel rhan o'r rôl hon, bydd hefyd yn cynnal asesiad manwl o adnoddau dadansoddi ym maes diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder troseddol, a chefnog'r broses o ddatblygu achos busnes dros gynyddu'r adnoddau.
- Cwblhaodd rhanbarthau Gogledd Cymru a Dyfed Powys gynhyrchion cudd-wybodaeth amlasiantaethol i gefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, trais difrifol a gweithgarwch ar ffurf llinellau cyffuriau, ac mae cynhyrchion tebyg wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer De Cymru ar hyn o bryd.

2. Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol

- Cafodd achos busnes manwl dros sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel i Gymru ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei ystyried. Mae'r rhwydwaith yn hollbwysig i lwyddiant neu fethiant y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, a'r rhwydwaith fydd y brif ffordd o gyflawni'r amcanion sy'n weddill. Mae Gweinidogion wedi cytuno ar y cynnig i sefydlu'r Rhwydwaith ac mae trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i roi cyllid grant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
- Cwblhawyd modiwlau hyfforddiant Plismona yn y Gymdogaeth, a oedd yn cynnwys themâu amlasiantaethol allweddol megis datrys problemau, ymgysylltu â chymunedau ac ati, ac maent ar gael drwy'r Hwb Gwybodaeth[8].
- Datblygwyd modiwl dysgu a datblygu amlasiantaethol ynglŷn â deall a mynd i'r afael â chamfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed ar y cyd â SAC. Cafodd ei dreialu'n llwyddiannus gydag aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a De Cymru. Yn sgil ceisiadau gan y rhai a fu'n bresennol, caiff y modiwl ei gyflwyno i eraill yn y BGCau/BPRhau. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i atal dros dro oherwydd COVID-19. Gall y cynnyrch hyfforddiant hwn gael ei drosglwyddo i'r Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol pan gaiff ei sefydlu.

[7] Mae'r Uned Atal Trais, a sefydlwyd drwy gyllid gan y Swyddfa Gartref yn 2019, yn bartneriaeth sy'n cydweithio i atal pob math o drais ledled Cymru. Mae'r Uned Atal Trais yn ceisio deall achosion trais yn seiliedig ar dystiolaeth, gan fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais.
[8] Porth ar-lein yw'r Hwb Gwybodaeth, a grewyd gan Gwmni TGCh yr Heddlu ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu a'r Coleg Plismona ar gyfer plismona yn y DU a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, er mwyn helpu i rannu gwybodaeth, trafod syniadau a chyfleoedd ac annog mwy o gydweithio. Mae'n gyfle i rannu gwybodaeth am arweinyddiaeth, profiad, tystiolaeth a syniadau a dysgu gan eraill er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac arferion proffesiynol.

3. <u>Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol</u>

- Mae trafodaethau strategol ar adnoddau ar gyfer prosesau cydlynu a gweithgarwch diogelwch cymunedol wedi parhau ac mae'r proffil uwch mewn cyfarfodydd megis Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru wedi bod yn fuddiol yn hynny o beth.
- Mae swyddogion o'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi arwain darnau allweddol o waith ar fynd i'r afael â thrais difrifol.
- Mae'r mwyafrif o swyddogion arweiniol a chydgysylltwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael gafael yn rheolaidd ar gyngor arbenigol, arweiniad a chymorth ar amrywiaeth eang o faterion drwy Reolwr y Prosiect, gan gynnwys ceisiadau am hyfforddiant a mentora i swyddogion dibrofiad.
- Mae Llywodraeth Leol a Phlismona wedi cytuno ar y cyd i barhau i gyllido rôl Rheolwr y Rhaglen fel adnodd cydgysylltu a chymorth canolog am ddwy flynedd arall.
- Sefydlwyd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i Gymru gyfan sy'n cael ei arwain a'i gadeirio ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r heddlu.
- Bydd y Bwrdd hwn yn parhau i fod yn gyfrifol am arwain a llywodraethu gwaith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a bydd hefyd yn gyfrifol am y gwaith sydd eto i'w gwblhau o dan y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel y cyfeirir ato yn y pwynt bwled blaenorol.
- Mae cynhyrchion cudd-wybodaeth busnes ar gael i bartneriaethau Gogledd Cymru a Dyfed Powys fel sail i'w gweithgarwch. Ysgogir y gweithgarwch hwn gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol neu BGCau, BPAau a Byrddau Trais Difrifol a Throseddau Trefnedig lleol a rhanbarthol.
- Mae'r Uned Atal Trais wedi dechrau ar waith i ddatblygu cynhyrchion tebyg ar gyfer partneriaethau yn Ne Cymru a Gwent. Bwriedir canolbwyntio ar Gaerdydd ac Abertawe i ddechrau, gyda'r nod o ymestyn a chyflwyno'r cynhyrchion i Gymrru gyfan yn sgil penodiad y Prif Ddadansoddydd newydd.

4. <u>Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys</u>

- Adlewyrchir y gefnogaeth a'r ymrwymiad parhaus ymhlith y sectorau i ymgysylltu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau/dinasyddion sydd wedi cael profiad o'r System Cyfiawnder Troseddol yn y broses o ddatblygu rôl Swyddog Arweiniol Glasbrint Cyfathrebu a Chynnwys newydd, a ariennir gan bartneriaeth amlasiantaethol sy'n uniongyrchol atebol i'r Bwrdd Menywod ym maes Cyfiawnder.[9][10]

[9] Datblygwyd y glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a'r glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac maent yn seiliedig ar ymyrryd yn gynnar ac atal, gan ystyried y gall pobl gael eu dargyfeirio oddi wrth droseddu yn y lle cyntaf, ond lle mae'n rhaid inni weithio gyda throseddwyr, gwnawn hynny mewn ffordd holistaidd ac adsefydliadol.  .

[10] Mae'r Bwrdd Menywod ym maes Cyfiawnder yn gweithredu fel y prif Grŵp yng Nghymru, sy'n gyfrifol am lywodraethu a rhoi cyfeiriad strategol i bartneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol, gan sicrhau y caiff agenda menywod ym maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru ei chyflawni'n effeithiol ac y caiff y cyfeiriad strategol/polisi perthnasol ei roi ar waith.

- Ymrwymiad amlasiantaethol i gefnogi'r broses o gyfathrebu a chynnwys dinasyddion yn y Bwrdd Menywod ym maes Cyfiawnder. Mae'r gwaith ar ymgysylltu â dinasyddion wedi'i wneud gan adlewyrchu profiadau presennol menywod o'r gwahanol rannau o'r system cyfiawnder troseddol, mae adroddiad wedi'i baratoi, ochr yn ochr â dwy Gynhadledd Menywod ym maes Cyfiawnder a arweiniwyd gan y Trydydd Sector a helpodd i lywio'r broses o roi'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd ar waith.
- Cyllid ar gyfer Swyddog Arweiniol Cyfathrebu a Chynnwys a sicrhawyd drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac a gefnogwyd gan Fwrdd Menywod ym maes Cyfiawnder.
- Mae'r broses o recriwtio Swyddog Arweiniol Cyfathrebu a Chynnwys wedi'i chwblhau.
- Datblygu Stategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid.
- Cafodd Maniffesto Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol ei adnewyddu, wedi'i lywio gan sefydliadau o'r trydydd sector ledled Cymru[11] Nodwyd bod cydgynhyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion yn elfennau allweddol ac maent wedi'u hadlewyrchu drwy holl Faniffesto Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru (fel rhan o drefniadau Partneriaeth y Trydydd Sector).
- Cyflwynwyd Maniffesto Cyfiawnder Cymunedol Cymru i Fforwm Cyfiawnder Troseddol Cymru ym mis Mawrth 2020, a nodwyd yn benodol yr ymrwymiadau ym Maniffesto Cyfiawnder Cymunedol Cymru i gynnwys pobl bob amser yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chydweithio. Cymeradwywyd hyn gan y Bwrdd ac roedd aelodau yn awyddus i chwarae mwy o ran yn y gwaith hwn.

5. <u>Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl</u>

- Mae'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, a ategwyd gan y Cytundeb Partneriaeth, wedi dod â'r heddlu a'i bartneriaid ynghyd i newid yn sylfaenol y ffordd y mae plismona a'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn nodi, yn deall ac yn cefnogi unigolion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac wedi profi trawma.
- Datblygu modiwl hyfforddiant pwrpasol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Amlasiantaethol a Lywir gan Drawma Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE TIME) [12]. Mae hwn wedi cael ei gyflwyno i fwy na 6,000 o recriwitiaid newydd rheng flaen yr heddlu a phartneriaid er mwyn eu cyflwyno i'r cysyniad o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, effaith trawma yn ystod plentyndod a'r ffordd y mae'n llywio ymddygiadau, yn enwedig o ran pobl sy'n agored i niwed y mae'r heddlu yn dod i gysylltiad â nhw'n rheolaidd.
- Cafodd fersiwn addasedig o'r modiwl hyfforddiant ACE TIME ei datblygu ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol i'w chyflwyno i staff gweithredol. Mae cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi'r hyffordwyr wedi cael eu cynnal i hyfforddi

[11] Cafodd Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru ei gadeirio a'i gefnogi gan Cymru Ddiogelach ac fel rhan o'r Cynllun Trydydd Sector a hwylusodd gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.
[12] Mae hyfforddiant ACE TIME wedi'i gynllunio i helpu'r gweithlu i godi ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma cysylltiedig a'r effaith gydol oes. Mae hyn yn cefnogi dull system gyfan â phartneriaid i atal a lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

staff carchardai a phrawf i gyflwyno'r hyfforddiant a bydd hynny'n parhau yn 2020/21.

- Cyflwynwyd Gwasanaeth y Cydgysylltwyr ACE mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru ym mhob un o bedwar heddlu Cymru. Yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant ACE TIME, mae Cydgysylltwyr ACE wedi gweithio i ymgorffori dull o blismona a lywir gan drawma lle maent yn gweithredu er mwyn rhoi cyngor annibynnol.
- Lansiodd y rhaglen Rhwydwaith Dysgu Camau Cynnar Gyda'n Gilydd sy'n cynnig gwybodaeth ac ymchwil ym maes profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ogystal ag arferion gorau ac adnoddau.
- Fel rhan o'r 'dull iechyd y cyhoedd', mae gweithgareddau'r rhaglen wedi'u hategu gan gorff sylweddol o waith ymchwil a gwerthuso i fesur a gwerthuso effaith y rhaglen. Mae nifer o adroddiadau ymchwil eisoes wedi'u cyhoeddi a bydd rhagor o adroddiadau yn dilyn dros haf 2020.
- Mae'r pedwar heddlu wedi ymrwymo i barhau i weithio tuag at brif ffrydio'r dull a fabwysiadwyd gan y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a symud gweithgareddau'r rhaglen i fod yn rhan o fusnes craidd.
- Wrth weithio i ddatblygu dull 'arolygiadau thematig ar y cyd' o bartneriaethau, yn hytrach na phartneriaid unigol, sy'n cynnwys trefniadau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig a chanolbwyntio ar 'leihau aildroseddu', mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran treialu methodolegau. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Estyn Arolygiad ar y cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant, sef ymateb amlasiantaethol i gam-drin ac esgeuluso yng Nghasnewydd. Roedd yr arolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r ffordd roedd gwasanaethau lleol yn ymateb i gamfanteisio ar blant. Caiff trafodaeth bellach ei chynnal i adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot hwn, ac ystyried cynnal rhagor o arolygiadau 'JICPA' pan fydd gweithgarwch arolygu craidd yn ailddechrau yn 2021.
- Mae arolygiadau'r Cyd-arolygiadau Cyfiawnder Troseddol yn parhau i ganolbwyntio ar y cyd ar ddiogelwch cymunedol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thimau troseddwyr ifanc ac i gynnal arolygiadau craidd o dimau troseddwyr ifanc. Mae adroddiadau'r cyd-arolygiadau cyfiawnder troseddol sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn cynnwys 'Integrated Offender Management (IOM)', a oedd yn cynnwys ffocws ar Reoli Integredig Troseddwyr yng Nghymru.
- Mae Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i gynnal arolygiadau thematig sy'n esbonio sut mae gwasanaethau prawf a gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr wedi ymdopi yn ystod trefniadau Model Cyflawni Eithriadol COVID-19.

## 6. Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor

- Wedi rhoi arweinyddiaeth i sicrhau gweithio trawslywodraethol effeithiol mewn amrywiaeth eang o fentrau, gan sicrhau ymgysylltu â phob partner perthnasol (datganoledig ac annatganoledig) er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae datblygu cydberthnasau cadarn a gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i gyflawni hyn. Ymhlith yr enghreifftiau mae ymgysylltu ar yr Uned

Atal Trais; Canolfan Breswyl i Fenywod a diwygiadau i'r Gwasanaethau Prawf.

- Cyflwynodd yr Adolygiad Partneriaeth Strategol adroddiad i'r Cyngor Partneriaeth ym mis Mehefin 2020. Daeth i'r casgliad nad oedd angen ailstrwythuro ac y câi newidiadau i symleiddio partneriaethau eu penderfynu'n lleol.
- Cynhaliodd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru adolygiad strategol o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan roi diweddariad i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019. Mae ardaloedd eraill hefyd yn ystyried adolygu eu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
- Lansiwyd y 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru' ym mis Ebrill 2018, sy'n rhaglen pum mlynedd (yn dod i ben yn 2022).
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac wedi amlinellu ei barn y dylai'r Gwasanaeth Prawf ddychwelyd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran diwygio, gyda'r cyfrifoldeb am reoli troseddwyr yn dychwelyd i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o 1 Rhagfyr 2019.
- Gwnaed cyhoeddiad arall ar 11 Mehefin 2020, a nododd y bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd yn gyfrifol am waith di-dâl a newid ymddygiadol troseddwyr o fis Mehefin 2021. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi eu bwriad i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.
- Wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref a Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru er mwyn sicrhau bod digwyddiad lansio Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol i Gymru yn canolbwyntio ar dirwedd ddatganoledig Cymru ac yn cynnwys themâu a gwybodaeth a oedd yn uniongyrchol berthnasol i Gymru.
- Wedi cyhoeddi Glasbrint ar gyfer Throseddu a Glasbrin ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Mai 2019, sydd bellach yn rhan o flaenoriaethau'r Prif Weinidog yn y dyfodol Wedi datblygu trefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys creu Bwrdd Rhaglen o uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru sydd hefyd yn cadeirio, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Swyddfa Gartref a'r Heddlu/Comisiynwyr yr Heddlu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan wedi diwygio ei flaenoriaethau byrdymor a hirdymor yn ddiweddar ac wedi cynnwys hyblygrwydd ar gyfer sganio'r gorwel a mynd i'r afael â sefyllfaoedd brys sy'n codi nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd
- Mae cylch gorchwyl y Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru wedi cael ei adolygu, gydag aelodaeth newydd o Lywodraeth Cymru ac adrannau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau ymgysylltu ar feysydd allweddol o ddatblygu polisi a diwygio.

## 5. PONTIO I FUSNES FEL ARFER

Mae angen y rhaglen amlasiantaethol hon er mwyn parhau i roi'r amcanion ar waith ar sail arweinyddiaeth wasgaredig. Rhagwelir y bydd rhai Uwch-swyddogion Cyfrifol

yn parhau yn eu rolau o dan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd er mwyn sicrhau y bydd y camau gweithredu sydd eto i'w cymryd yn mynd rhagddynt o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Caiff y manylion llywodraethu hyn eu dogfennu mewn llythyr gan Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel at Gadeirydd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd ei sefydlu sy'n gofyn i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd ei sefydlu ymgymryd â'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith hwn.

Mae'n werth nodi bod pandemig COVID-19 yn sicr wedi newid diogelwch cymunedol yng Nghymru; er ein bod wedi cwtogi ar lawer o'r gwaith yn y Rhaglen hon dros dro, bu cryn dipyn o ymgysylltu a gweithgarwch mewn cymunedau lleol o ganlyniad i'r ymateb ar y cyd gan yr holl asiantaethau. Mae cyfle i fyfyrio ar oblygiadau posibl COVID-19 i'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn y dyfodol, ac yn wir, gyfle i ddeall sut i fanteisio ar well trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Fel y nodwyd o'r blaen, mae pandemig COVID-19 wedi tarfu ar gynnydd nifer o amcanion y Rhaglen. Arweiniodd hyn at bontio i fodel 'busnes fel arfer' cyn bod rhai agweddau ar y gwaith wedi datblygu ac wedi aeddfedu'n llawn, ac wedi'u hymgorffori'n llawn mewn busnes fel arfer. Mae trefniadau llywodraethu eisoes ar waith ar gyfer yr amcanion sydd heb eu cyflawni eto a nodir isod.

**Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol**

- Sefydlu'r Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth, sgiliau, canllawiau, arferion gorau, hyfforddiant ac ati
- Sefydlu adnodd ar-lein i ymarferwyr diogelwch cymunedol yng Nghymru (i'w gynnal gan y rhwydwaith newydd).
- Datblygu canllawiau penodol i Gymru ar y cyd er mwyn cefnogi'r datganiad am gydweledigaeth ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru.
- Datblygu pecynnau cymorth penodol i Gymru, astudiaethau achos, cynhyrchion dysgu a datblygu, adnoddau ac ati.
- Sefydlu 'canolfan' academaidd yng Nghymru, a fydd yn arwain at gydweithio rhwng Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru i lywio polisïau ac arferion cyfiawnder mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Comisiwn Thomas.
- Hyfforddiant a datblygu ar gyfer swyddogion arweiniol partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r wybodaeth briodol i wireddu'r gydweledigaeth.

**Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl**

- Mae gwaith ar yr adroddiadau ymchwil a gwerthuso yn parhau ac mae contractau'r tîm ymchwil wedi cael eu hestyn tan ddiwedd mis Mehefin er mwyn cwblhau'r gwaith hwn. Mae'r adroddiadau canlynol bellach wedi'u cyhoeddi:
    - **Transitioning from Police Innovation to a National Programme of Transformation: an overview of the up-scale of Adverse Childhood Experience (ACE) and trauma-informed training and evaluation**

    - **Understanding the landscape of policing when responding to vulnerability: Interviews with frontline officers across Wales**
    - **An evaluation of the adverse childhood experience trauma informed multi-agency early action together (ACE TIME) training: National roll out to police and partners**
    - **Enabling Early Intervention and Prevention in the Policing of Vulnerability: An Executive Summary**
- Bydd dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar a lywir gan drawma o ddarparu (a chomisiynu) gwasanaethau yn parhau i gael eu cysoni a'u prif ffrydio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus. Caiff cyfres arall o adroddiadau ei chyhoeddi dros yr haf:
    - Safbwyntiau'r Heddlu ar effaith hyfforddiant ACE TIME ledled Cymru
    - Hyfforddiant sgiliau Gwella Gwydnwch a Hunaofal: gwerthusiad peilot o gyflwyno rhaglen hyfforddiant seico-addysgol ym maes plismona
    - Deall y galw am ymatebion nad ydynt yn rhai brys nac wedi'u trefnu ar Heddlu Gogledd Cymru: Astudiaeth arsylwi o'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd
    - Gwerthusiad o hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cyfiawnder Troseddol a Hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth o Drawma (TAT) mewn carchardai a gwasanaethau prawf.
    - Gwerthusiad o Reoli Achosion Datblygedig ag agenda ACE Cyfiawnder Ieuenctid/hyfforddiant Model Adfer ar ôl Trawma
- Mae ymrwymiad ar waith i barhau â gweithgareddau'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd am flwyddyn arall. Yn 2020/21, y nod yw cyflwyno gwerthusiad cyffredinol o'r hyn y mae'r rhaglen a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref wedi'i gyflawni, ynghyd â set o argymhellion ynglŷn â sut y gellid cyflwyno hyn ar raddfa fwy a'i ymgorffori er mwyn trawsnewid systemau Cymru. Mae Uwch-swyddog Cyfrifol newydd wedi cael ei benodi a bydd bwrdd rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn cael ei derfynu ond caiff ei ddisodli gan banel cynghori arbenigol a fydd yn craffu ar y gwaith eleni ac yn rhoi sicrwydd a chyngor.

**Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor**

- Annog a chefnogi asiantaethau i barhau i weithio mewn partneriaeth a phwysigrwydd arweinyddiaeth o hyd tuag at ddiogelwch cymunedol yng Nghymru
- Parhau i roi'r ‘Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru’ pum mlynedd ar waith (yn dod i ben yn 2022).
- Fframwaith cyflawni pum mlynedd ar gyfer y glasbrintiau, gydag argymhellion byrdymor, tymor canolig a hirdymor, i'w cyflawni erbyn mis Mai 2024.
- Caiff yr ymrwymiad i ddiweddaru Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n adlewyrchu datganoli yn well ei gwmpasu gan y gwaith a wneir gan dîm Trawsnewid Cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru, ond fel gwaith arall, cafodd hyn ei atal dros dro oherwydd COVID-19.
- Mae angen parhau i ymgorffori gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol yn lleol yn strwythur BGCau/BPAau a BPRau, gan gydweithio i gytuno ar flaenoriaethau lleol a gweithredu arnynt.
- Sefydlu academi sgiliau digidol yng Nglynebw er mwyn gwella'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu'n ddigidol â dinasyddion a chymunedau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn rhan o Strategaeth Cymru Ddigidol Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r gwaith ar gam cynnar o hyd a bydd angen ei oruchwylio a'i lywodraethu cyn iddo ddod yn rhan lawn o'r trefniadau busnes fel arfer presennol. Mae Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen wedi ysgrifennu at gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd i egluro'r trefniadau llywodraethau yn y dyfodol ar gyfer meysydd gwaith canlynol:

**Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth**

- Datblygu'r dull Hwb/Tîm Data a Dadansoddi Amlasiantaethol i Gymru Gyfan yn fanwl, gan gynnwys datblygu achosion busnes dros fuddsoddiad amlasiantaethol yn y gwaith o ddadansoddi partneriaethu a sefydlu trefniadau llywodraethu hirdymor priodol.
- Darparu cynhyrchion cudd-wybodaeth busnes amlasiantaethol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, trais difrifol a gweithgarwch o fath llinellau cyffuriau yn rhanbarthau De Cymru a Gwent.
- Sefydlu'r rhwydwaith gwella ac arloesi data a dadansoddi amlasiantaethol i Gymru fel is-strwythur allweddol o'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel.
- Cefnogi ‘asesiadau strategol’ o ddiogelwch cymunedol a cheisio sicrhau bod y prosesau o gomisiynu a datblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth yn rhai wedi'u prif ffrydio ac yn barhaus, sy'n cyd-fynd yn briodol ag Asesiadau Llesiant, Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Llesiant ac agenda 'digideiddio' gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru
- Cefnogi egwyddor ‘yn seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan dystiolaeth’ a sicrhau adnoddau cynaliadwy i'w chymhwyso mewn gwaith partneriaethau lleol a rhanbarthol

**Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol**

- Mynd i'r afael â'r problemau cyffredin y mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'u 'hawdurdodau cyfrifol' yn eu hwynebu ledled Cymru sy'n effeithio ar eu gallu i fwrw ymlaen â chynlluniau hollbwysig ar ddiogelwch cymunedol
- Ystyried gweithgarwch ad-drefnu partneriaethau strategol er mwyn symleiddio'r dirwedd strwythurol sy'n galluogi gweithio mewn partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol

**Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys**

- Swyddog Arweiniol Cyfathrebu a Chynnwys yn datblygu model cynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, ynghyd â mynediad drwy Rwydweithiau Cyfiawnder Cymunedol Cymru, yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol i ddangos buddiannau cynaliadwy, diriaethol dulliau ymgysylltu a chynnwys.
- Bydd dulliau ymgysylltu a chynnwys a chanlyniadau yn cael eu cefnogi gan ffrwd waith sgiliau a gwybodaeth briodol a'u cyd-blethu â datblygiadau yn y dyfodol, gan gydnabod pwysigrwydd llais y dinesydd yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

- Bydd y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel newydd, gan weithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru, y trydydd sector, rhwydweithiau Cymru gyfan a sefydliadau aelodaeth a'u cefnogi, yn hyrwyddo egwyddor ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys yn y cydweledigaeth ar gyfer diogelwch cymunedol drwy ddatblygu cynhyrchion ac adnoddau penodol i Gymru (pecynnau cymorth, canllawiau, astudiaethau achos, hyfforddiant ac ati), ac yn cyflwyno'r achos dros sicrhau adnoddau cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion/cymunedau a'u cynnwys.
- Nodi a gweithredu ar wersi a ddysgwyd o waith 'ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys' yn ystod COVID-19. Mae gan Rwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau aelodaeth, rôl i'w chwarae, gan ymgysylltu â phob rhan o'r sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn clywed a hwyluso llais dinasyddion fel rhan o weithio mewn partneriaeth yn genedlaethol/rhanbarthol ac yn lleol.

**Atodiad A**

**Adroddiad SAC 2016:Argymhellion**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol. | Llywodraeth Cymru, Tîm Cymru Swyddfa Gartref Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A3 Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy: • osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol; • sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a • sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |

| | |
|---|---|
| A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth: • ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol; • cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac • adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith. | Aelodau Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus |

**Atodiad B**
**Adroddiad SAC 2016:Ymateb Llywodraeth Cymru, 2017**

Wrth annerch Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn bwriadu sefydlu Grŵp Goruchwylio i adolygu'r trefniadau diogelwch cymunedol presennol a datblygu cydweledigaeth ar gyfer cymunedau diogel yng Nghymru.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Mae diogelwch ein cymunedau wedi bod yn flaenoriaeth i ni erioed. Dyna pam rydym yn cefnogi ein gwasanaethau brys ac asiantaethau eraill i sicrhau bod ganddynt y gallu i'n diogelu rhag y peryglon hyn.

Ond mae'r agenda, o ran ei natur, yn gymhleth. Mae deddfwriaeth a pholisïau yn cynnwys cyfrifoldebau datganoledig, yn ogystal â rhai sydd heb eu datganoli. Mae dwy flynedd ar bymtheg o ddatganoli wedi arwain, o angenrheidrwydd, at wahaniaethau rhwng ein dull ni o ddatblygu polisïau a dull Llywodraeth y DU. Mae'r newidiadau hyn wedi creu cyfleoedd newydd, ond nid ydynt i gyd wedi symleiddio'r cyd-destun rydym yn gweithio ynddo.

Ddiwedd y llynedd, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu cymhlethdodau'r agenda, ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Serch hynny, fe wnaeth yr adroddiad godi nifer o faterion hefyd. Rwy'n credu bod yr adroddiad yn rhoi cyfle gwerthfawr i ni bwyso a mesur y sefyllfa.

Gyda chytundeb y partneriaid allweddol hynny sy'n gallu ysgogi newid, a gan weithio ochr yn ochr â nhw, rwy'n sefydlu Grŵp Trosolwg i adolygu'r trefniadau presennol. Bydd yn helpu i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cymunedau mwy diogel yng Nghymru, sy'n adeiladu ar y gwaith ardderchog sydd wedi cael ei wneud eisoes neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried argymhellion gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwyf am weld adolygiad uchelgeisiol sy'n datblygu gweledigaeth glir ar gyfer diogelwch cymunedol a fydd yn gadarn, yn berthnasol ac yn ymatebol. Gweledigaeth ar gyfer y tymor hir fydd hon."

**Atodiad C**
**Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel: Aelodau'r Bwrdd**
Roedd aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr:

- Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru (Grŵp Plismona yng Nghymru)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLCPl)
- Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol)
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi)
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru
- Prif Swyddogion Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfiawnder Cymunedol Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol Cymru.

**Atodiad D**

**Llywodraeth Cymru: Argymhellion Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel**

12. Gweithio gyda Chomisiwn Cyfiawnder Cymru sydd newydd ei sefydlu i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru ac adnabod opsiynau i ddatblygu system gyfiawnder ar wahân i Gymru, sy'n gwella mynediad pobl at gyfiawnder, yn lleihau troseddau ac yn hybu adsefydlu ac yn cynrychioli anghenion Cymru go iawn.

13. Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.

14. Datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei ddatganoli ac sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

15. Sefydlu swyddogaeth arweinyddiaeth polisi ac arfer 'partneriaeth' diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arweinwyr 'datganoledig' perthnasol eraill ar ran Llywodraeth y DU.

16. Datblygu canllawiau newydd sy'n berthnasol yn benodol i Gymru ac sy'n adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol ac sy'n nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol sicrhau eu bod:
    - Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
    - Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
    - Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
    - Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
    - Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
    - Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

Ymhlith y meysydd arfaethedig i'w cynnwys yn y canllawiau bydd:

- Egluro'r disgwyliadau o ran asesu strategol a dulliau busnes sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, gan gynnwys cynllunio a chomisiynu gwasanaethau partneriaethau a rhannu data personol a chyfanredol;
- Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion statudol i 'brif-ffrydio' a geir yn Adran 17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn (sydd â chysylltiad agos â'r gofynion o ran cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol);
- Lliflinio strwythurau partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i sicrhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mwy effeithiol ac egluro'r cyswllt â/rôl BGCau gan barhau i ateb y gofynion statudol mewn perthynas â CONTEST, BCAau Camddefnyddio Sylweddau, Lleihau Aildroseddu, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camddefnyddio Sylweddau, Caethwasiaeth Fodern a.y.b

- Sicrhau bod prif weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru'n gallu dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn - boed trwy drefniadau partneriaeth lleol neu ranbarthol - gan gynnwys darparu swyddogaeth arweiniol gydnabyddedig ar gyfer diogelwch cymunedol gyda'r sefydlogrwydd a'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i yrru'r agenda Cymunedau Mwy Diogel yn ei blaen yng nghyd-destun partneriaethau lleol a rhanbarthol;
- Cryfhau rôl a statws sefydliadau'r trydydd sector o fewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a datblygu a hybu dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr y trydydd sector;
- Cryfhau rôl a statws sefydliadau'r trydydd sector o fewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a datblygu a hybu dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr y trydydd sector;
- Egluro'r disgwyliadau o ran ennyn ymgysylltiad dinasyddion a'u cynnwys mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a phrosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

17. Ystyried sut i sefydlu rhwydwaith diogelwch cymunedol cenedlaethol newydd a chynhwysol i Gymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol a helpu i ddatblygu'r 'wybodaeth a'r sgiliau priodol' sydd eu hangen i roi'r weledigaeth newydd ar waith.

18. Ystyried sut i sefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein i Gymru a fydd yn cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso, ynghyd ag ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu diogelwch cymunedol yn benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon).

19. Archwilio cyfleoedd i dreialu trefniadau arolygu thematig ar y cyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedolmewn perthynas â'r thema 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol.

20. Ystyried sut i wella rhaglenni ariannu diogelwch cymunedol i sicrhau cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwyhyblyg ac yn fwy hirdymor i gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys modelau cydgynhyrchu ac elfennau cyllidebu cyfranogol.

21. Argymhellir bod adolygiad trawslywodraethol o 'batrymau' rhanbarthol yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn addas at diben.

22. Argymhellir bod asesiad o drefniadau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n briodol ar lefel leol.

**ATODIAD E**

**Trosolwg o Ad-drefnu Partneriaethau Rhanbarthol (Diogelwch Cymunedol, Plismona a Chyfiawnder Troseddol)**

Diweddariad: Ionawr 2020

| RHANBARTH: | Dyfed Powys | Gwent | Gogledd Cymru | De Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Y Sefyllfa Bresennol (Ionawr 2020)** | Nid oes unrhyw drafodaethau arwyddocaol yn ardal Dyfed Powys o ran mapio ac ad-drefnu partneriaethau strategol, ond mae'r Bwrdd Troseddau Difrifol a Threfnedig rhanbarthol, sy'n cyfarfod gefn wrth gefn â'r bwrdd CONTEST rhanbarthol bellach wedi dod yn Fwrdd Trais Difrifol a Throseddau Trefnedig yn hytrach na sefydlu bwrdd ar wahân. Mae gan 'SVOC' a CONTEST strwythurau lleol dyblyg ar lefel sirol yn Nyfed Powys. | Mae Gwent wedi bod yn ystyried ad-drefnu partneriaethau strategol mewn amrywiaeth o fforymau Gwent gyfan, gan gynnwys bwrdd diogelwch cymunedol rhanbarthol Gwent Mwy Diogel a fforwm arweinwyr strategol y G7 ers y pedair blynedd diwethaf. Mae nifer o fyrddau thematig megis VAWDASV wedi bod yn gweithredu ar lefel ranbarthol ers peth amser a bu sawl ymgais i fapio strwythurau yn rhanbarthol ac yn lleol. Nid oes 'datganiad gweledigaeth' ar gyfer ffurf Gwent Mwy Diogel yn y dyfodol, na | Gogledd Cymru yw'r unig ranbarth sy'n mynd ati i ad-drefnu partneriaethau strategol ac mae'n rhagweld y bydd yn sefydlu byrddau 'cysgodol' thematig newydd erbyn mis Ebrill 2020 ac yn cwblhau'r broses o bontio i'r strwythur symlach newydd erbyn mis Ebrill 2021. Mae hyn yn dibynnu ar lwyddo i nodi adnodd rhanbarthol i arwain y prosiect uchelgeisiol hwn ac mae achos busnes dros rôl cydgysylltydd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ceir byrddau diogelwch cymunedol is-ranbarthol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, ac ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy hefyd. | Mae De Cymru wedi codi'r posibilrwydd o greu bwrdd strategol diogelwch cymunedol rhanbarthol i roi gwell cefnogaeth i weithio mewn partneriaeth yn lleol a mwy o gysondeb ledled ardal yr heddlu o ran materion megis Troseddau Difrifol a Threfnedig, llinellau cyffuriau ac ati. Mae'r trafodaethau ar gam cynnar, ac yn aros am 'adolygiadau manwl o ddiogelwch cymunedol' gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu De Cymru. De Cymru yw'r unig ranbarth sydd eisoes wedi uno ei |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | chynllun ar sut i gyrraedd y sefyllfa a ddymunir. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd ar gydsyniad cyffredinol i ymgyrraedd ato – cysoni themâu diogelwch cymunedol yn rhanbarthol a chefnogi gweithio mewn partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol yn lleol. Fodd bynnag, rhwystrwyd unrhyw gynnydd gan drafodaethau â'r Swyddfa Gartref ar y posibilrwydd o 'uno' Partneriaethau Diogelwch Cymunedol unigol i roi statws statudol i Gwent Mwy Diogel, ac ar y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol sy'n cysylltu â BGC Gwent gyfan o bosibl. Mae'r trafodaethau ynghylch a ddylid | | Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'i Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr yn un bwrdd 'cyfiawnder troseddol' ar y cyd. Mae gan BGC Cwm Taf gyd-fwrdd diogelwch cymunedol is-ranbarthol ar gyfer RhCT a Merthyr Tudful, ar ôl adolygiadau cynhwysfawr o bartneriaethau yn 2016. Nid oes unrhyw drafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â mapio partneriaethau nac ad-drefnu ar lefel ranbarthol. Mae gan Cwm Taf fwrdd diogelwch cymunedol rhanbarthol eisoes sy'n rhan o'r BGC ac mae trafodaethau ynglŷn ag ymgoffori Pen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i newidiadau i ffiniau iechyd ac unedau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhanbartholi'r BGCau yn mynd rhagddynt. | | rheoli sylfaenol yn mynd rhagddynt. Mae bwrdd Cwm Taf yn cyfarfod gefn wrth gefn â'r Bwrdd Cynllunio Ardal. |
| **Camau gweithredu ar gyfer y chwarter nesaf** | I'w cadarnhau – camau pwy? | Mae cyfarfod trafod wedi'i drefnu ar 30 Ionawr ac mae swyddog arweiniol Gwent Mwy Diogel yn cysylltu â swyddogion arweiniol Gogledd Cymru i gael gwybod mwy am y ffordd y maent yn gweithredu a sut y gellir cymhwyso hynny yng Ngwent. | Parhau i fonitro cynnydd a chefnogi gweithgarwch lle ceir gwahoddiad/cais, a pharhau i rannu dysgu â rhanbarthau eraill. | I'w cadarnhau – camau pwy? |
| **Y Sefyllfa Bresennol (Ebrill 2020)** | | | | |
| **Camau gweithredu ar gyfer y chwarter nesaf** | | | | |
| **Y Sefyllfa Bresennol (Gorffennaf 2020)** | | | | |
| **Camau gweithredu ar gyfer y chwarter nesaf** | | | | |
| **Y Sefyllfa** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bresennol (Hydref 2020)** | | | | |
| **Camau gweithredu ar gyfer y chwarter nesaf** | | | | |

**Dogfen 3 – Llythyr Terfynu'r Uwch-swyddog Cyfrifol at Gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel**

Annwyl Gadeiryddion

Yn sgil cyhoeddi adolygiad *Gweithio Gyda'n Gyda'n i greu Cymunedau Mwy Diogel*, mae Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'i phartneriaid a'i rhanddeiliaid datganoledig ac annatganoledig yng Nghymru, wedi sefydlu'r 'Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel'. Bwriwyd ymlaen â'r Rhaglen o dan drefn lywodraethu a chyfarwyddyd bwrdd rhaglen amlasiantaethol, a cheisiodd wireddu cydweledigaeth newydd ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru ac arwain yn y maes hwnnw.
Mae'r Rhaglen wedi dod i ben ac mae'r adroddiad terfynol wedi'i baratoi – atodiad y drafft terfynol. Mae adroddiad terfynu terfynol wrthi'n cael ei baratoi i'w gyflwyno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn ddiweddarach y mis hwn. Fodd bynnag, cyn y gall y ddwy ddogfen fod yn derfynol, ysgrifennaf i egluro'r trefniadau llywodraethau ar gyfer rhywfaint o waith sy'n mynd rhagddo. Rwyf yn ceisio cadarnhad y bydd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel yn parhau i gynnig arweinyddiaeth strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gadw at y weledigaeth a ddatblygwyd gan y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, ac a gefnogwyd gan Weinidogion.

Mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus diweddar, na welwyd ei debyg o'r blaen, wedi effeithio ar y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, fel llawer o flaenoriaethau'r llywodraeth. Mae pandemig COVID-19 wedi rhwystro nifer o amcanion, sydd wedi arwain at bontio i fodel 'busnes fel arfer' cyn bod rhai agweddau ar y gwaith wedi datblygu ac wedi aeddfedu'n llawn, ac wedi'u hymgorffori'n llawn fel busnes fel arfer.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer llawer o'r amcanion sydd heb eu cyflawni eto. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar y broses gyflawni ar gam cynnar o hyd ac mae angen eu goruchwylio a'u llywodraethu cyn eu bod yn rhan lawn o'r trefniadau busnes fel arfer, felly ysgrifennaf i ofyn i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel newydd ei sefydlu ymgymryd â'r cyfrifoldeb am oruchwylio eu hynt. Rhestrir y rhain yn Atodiad A isod.

Fel Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen hon, mae'n bleser gennyf nodi'r cyfranogiad gan bob rhan o'r sector ac rwy'n ddiolchgar i Uwch-swyddogion Cyfrifol y ffrydiau gwaith yn enwedig, a gefnogwyd gan Stephen Carr, am eu hymrwymiad drwy gydol y Rhaglen hon a'r cynnydd sydd wedi digwydd o dan oruchwyliaeth pob un ohonynt. Rwyf ar ddeall y byddent yn fwy na pharod i barhau yn eu priod rolau fel Uwch-swyddogion Cyfrifol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y bydd eich Bwrdd yn fodlon ymgymryd â'r rôl llywodraethu a nodir yn Atodiad A a rhoi arweinyddiaeth strategol ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Yna, byddaf yn trefnu i'r adroddiad terfynol gael ei ddosbarthu ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda chi i barhau i wella diogelwch cymunedol ledled Cymru.

Yn gywir,

Reg Kilpatrick

**Atodiad A:**Tabl o Gyflawniadau Eithriadol y Rhaglen Cymunedau Mwy

| Ffrwd waith ac Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen Cymunedau Mwy | Gwaith i'w gario ymlaen |
|---|---|
| **Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth**<br><br>Uwch-swyddog Cyfrifol: Dafydd Llewelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | • Datblygu'r dull Hwb/Tîm Data a Dadansoddi Amlasiantaethol i Gymru Gyfan yn fanwl, gan gynnwys datblygu achosion busnes dros fuddsoddiad amlasiantaethol yn y gwaith o ddadansoddi partneriaethau a sefydlu trefniadau llywodraethu hirdymor priodol.<br>• Darparu cynhyrchion cudd-wybodaeth busnes amlasiantaethol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, trais difrifol a gweithgarwch o fath llinellau cyffuriau yn rhanbarthau De Cymru a Gwent.<br>• Sefydlu'r rhwydwaith gwella ac arloesi data a dadansoddi amlasiantaethol i Gymru fel is-strwythur allweddol o'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel.<br>• Cefnogi 'asesiadau strategol' o ddiogelwch cymunedol a cheisio sicrhau bod y prosesau o gomisiynu a datblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth yn rhai wedi'u prif ffrydio ac yn barhaus, sy'n cyd-fynd yn briodol ag Asesiadau Llesiant, Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Llesiant ac agenda 'digideiddio' gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru<br>• Cefnogi egwyddor 'yn seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan dystiolaeth' a sicrhau adnoddau cynaliadwy i'w chymhwyso mewn gwaith partneriaethau lleol a rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| **Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol**<br><br>Uwch-swyddog Cyfrifol: Chris Davies, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | • Sefydlu'r Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth, sgiliau, canllawiau, arferion gorau, hyfforddiant ac ati<br>• Sefydlu adnodd ar-lein i ymarferwyr diogelwch cymunedol yng Nghymru<br>• Datblygu canllawiau penodol i Gymru ar y cyd er mwyn cefnogi'r datganiad am gydweledigaeth ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru<br>• Datblygu pecynnau cymorth penodol i Gymru, astudiaethau achos, cynhyrchion dysgu a datblygu ac adnoddau<br>• Sefydlu ‘canolfan’ academaidd i Gymru er mwyn llywio polisïau ac arferion cyfiawnder mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Comisiwn Thomas.<br>• Hyfforddiant a datblygu ar gyfer swyddogion arweiniol partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r wybodaeth briodol i wireddu'r gydweledigaeth |

| | |
|---|---|
| **Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol**<br><br>Uwch-swyddog Cyfrifol: Naomi Alleyne, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol CLlLC | • Mynd i'r afael â'r problemau cyffredin y mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'u 'hawdurdodau cyfrifol' yn eu hwynebu ledled Cymru sy'n effeithio ar eu gallu i fwrw ymlaen â chynlluniau hollbwysig ar ddiogelwch cymunedol<br>• Ystyried gweithgarwch ad-drefnu partneriaethau strategol er mwyn symleiddio'r dirwedd strwythurol sy'n galluogi gweithio mewn partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol |

| | |
|---|---|
| **Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys**<br><br>Uwch-swyddog Cyfrifol: Bernie Bowen Thomson, Cadeirydd Cyfiawnder Cymunedol Cymru | • Swyddog Arweiniol Cyfathrebu a Chynnwys yn datblygu model cynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, ynghyd â mynediad drwy Rwydweithiau Cyfiawnder Cymunedol Cymru, yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol i ddangos buddiannau cynaliadwy, diriaethol dulliau ymgysylltu a chynnwys.<br>• Bydd dulliau ymgysylltu a chynnwys a chanlyniadau yn cael eu cefnogi gan ffrwd waith sgiliau a gwybodaeth briodol a'u cyd-blethu â datblygiadau yn y dyfodol, gan gydnabod pwysigrwydd llais y dinesydd yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau.<br>• Bydd y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel newydd, gan weithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru, y trydydd sector, rhwydweithiau Cymru gyfan a sefydliadau aelodaeth a'u cefnogi, yn hyrwyddo egwyddor ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys yn y cydweledigaeth ar gyfer diogelwch cymunedol drwy ddatblygu cynhyrchion ac adnoddau penodol i Gymru (pecynnau cymorth, canllawiau, astudiaethau achos, hyfforddiant ac ati), ac yn cyflwyno'r achos dros sicrhau adnoddau cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion/cymunedau a'u cynnwys.<br>• Nodi a gweithredu ar wersi a ddysgwyd o waith ‘ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys’ yn ystod COVID-19. Mae gan Rwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau aelodaeth, rôl i'w chwarae, gan ymgysylltu â phob rhan o'r sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn clywed a hwyluso llais dinasyddion fel rhan o weithio mewn partneriaeth yn genedlaethol/rhanbarthol ac yn lleol. |

**Dogfen 4: Llythyr ymateb at yr Uwch-swyddog Cyfrifol gan gadeiryddion y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel**

CLlLC • WLGA

Dear Reg

**Safer Communities Programme**

Thank you for your letter dated 15th September 2020 seeking confirmation that the Safer Communities Board established jointly by Policing in Wales and the Welsh Local Government Association will provide the strategic leadership for Community Safety in Wales in future and take forward some on-going areas of work previously governed by the Safer Communities Programme Board which you chaired. This was agreed at a meeting of the new Board on 24th September.

You will be aware that the purpose of the Safer Communities Board is to provide leadership, oversight and direction to a programme of work shared by Local Government, Policing in Wales and other partners with the aim of ensuring effective shared leadership is provided to support local partnership working that will support safe, strong confident communities. We attach a copy of the Terms of Reference of the Board for your reference. The role of the Board is fully in line with Welsh Government's vision for community safety in Wales. We hope this provides the assurance you seek that the Safer Communities Board will continue to provide strategic leadership for community safety work for Wales, in line with the agreed vision.

The Board is also content to provide direction, leadership and governance for the outstanding objectives and oversee progress as they become more embedded as 'business as usual', as set out in Appendix A of your letter. The two significant priorities for the Board are the establishment of the Safer Communities Network and the development of an all Wales multi-agency data and intelligence hub/team. We feel both these developments will be of enormous benefit to those working in making our communities safer and we welcome the funding from Welsh Government to help take forward the Network. However, further discussions are needed on whether the Board will accept responsibility for regular updating of the table included as Appendix E of the closure report relating to structural reviews and rationalisation.

You will be aware that Welsh Government has been invited to join the Safer Communities Board and am sure your representative will keep you updated on progress. It may however be helpful for us to meet on an annual basis to discuss progress being made against the agreed vision and in ensuring all partners are working well together to progress the safety of communities across Wales. We would welcome your thoughts on this.

Yours sincerely

Alun Michael

**Police and Crime Commissioner South Wales**

**Joint Chairs**

Cllr Mathew Dorrance

**WLGA Spokesperson for Community Safety**